

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

29/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

07/05/2024

Gwerthuso gwerth am arian: ymyraethau digartrefedd

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron Digidol ISBN 978-1-83577-958-3

Gwerthuso ymyriadau digartrefedd: gwerth am arian

Awdur(on) / Cwmni: Imogen Blood, Sarah Alden, Shelly Dulson, Anita Birchall, Nicholas Pleace and Sarah Chalmers-Page

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Imogen Blood, Sarah Alden, Shelly Dulson, Anita Birchall; (2023). Gwerthuso Ymyriadau Digartrefedd; Gwerth am Arian
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 29/2024
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gam-2-ymyraethau-digartrefedd-adroddiad-terfynol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Housing Research Team

Adran: SRID

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: housingresearchteam@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Geirfa a thalfyriadau cyffredin	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Canolbwyntio ar Tai yn Gyntaf	6
3. Cost-efeithiolrwydd mewn gwasanaethau digartrefedd	8
4. Casgliadau	44
Cyfeiriadau.....	45

Rhestr o dablau

Table 1 Gwariant gwirioneddol y 3 rhaglen (wedi'i dalgrynnu i'r bunt agosaf).....	5
Tabl 2 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 1 ar gyfer Tai yn Gyntaf	17
Tabl 3 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 2 ar gyfer Tai yn Gyntaf	18
Tabl 4 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 3	22
Tabl 5 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 5 – Senario 'Ymyl Dibyn' Oedran.....	33
Tabl 6 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 6 cyn cychwyn mewn cynlluniau a reolir	40
Tabl 7 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 6 mewn Cynlluniau a Reolir.....	41

Geirfa a thalfyriadau cyffredin

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
COPD	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint
HF	Tai yn Gyntaf
HF4Y	Tai yn Gyntaf i leuenctid
PCSOs	Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
VfM	Gwerth am Arian
YIF	Cronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Ddigartref

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag elfen Gwerth am Arian gwerthusiad o ymyraethau digartrefedd yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi trawsnewid gwasanaethau digartrefedd. Penodwyd Imogen Blood & Associates i gyflawni'r gwerthusiad, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror 2022 a mis Chwefror 2024.
- 1.2 Nod y gwerthusiad yw deall effaith a dulliau'r ymyraethau a ariennir drwy dair rhaglen genedlaethol: dull Cam 2 o ymdrin â Digartrefedd; Tai yn Gyntaf; a'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref (YIF). Mae'r rhaglenni hyn a dull a chanfyddiadau'r gwerthusiad ehangach yn cael eu disgrifio yn y prif adroddiad gwerthuso.
- 1.3 Roedd y fanyleb wreiddiol ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad cost a budd o'r tair rhaglen ymyraethau digartrefedd. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr adolygiad cychwynnol o ddogfennau, yn enwedig mewn perthynas â chyllid Cam 2, nad oedd digon o ddata ar gael ar wariant ac allbynnau i gyflawni'r dadansoddiad hwn. Yn ogystal, amlygodd adolygiad y ddogfen y byddai'n anodd iawn datgysylltu'r ffrwd ariannu hon oddi wrth eraill a ddefnyddir yn lleol.
- 1.4 Cytunwyd y byddai'r gwerthusiad yn canolbwyntio'r dadansoddiad Gwerth am Arian ar Tai yn Gyntaf (HF) ac, i raddau llai, Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc (HF4Y) gan fod y rhain yn fodolau sefydledig gyda sail dystiolaeth sy'n bod eisoes y gellir ei defnyddio i asesu costau a buddion. Yn ogystal, mae yna gydnabyddiaeth o fwch mewn dadansoddiad budd a chostau Tai yn Gyntaf yng nghyd-destun Cymru hyd yma, y gallai'r prosiect hwn ddechrau mynd i'r afael ag ef.
- 1.5 Mae'r tabl canlynol yn dangos gwariant gwirioneddol pob un o'r tair rhaglen:

Table 1 Gwariant gwirioneddol y 3 rhaglen (wedi'i dalgrynnu i'r bunt agosaf)

	2019-20 Gwariant gwirioneddol	2020-21 Gwariant gwirioneddol	2021-22 Gwariant gwirioneddol	2022-23 Gwariant gwirioneddol	Cyfanswm
Tai yn Gyntaf	£1,109,879	£1,709,579	£1,814,766	£1,872,704	£6,506,928
Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc	£1,969,738	£3,008,232	£3,119,295	£2,823,349	£10,920,614
Refeniw Cam 2	Amh	£4,195,285	Amh	Amh	£4,195,285
Cyfalaf Cam 2	Amh	£20,149,032	£16,469,081	Amh	£36,618,113

1.6 Mae'r adran nesaf yn canolbwyntio ar Tai yn Gyntaf, gan drafod ystyriaethau cyffredinol wrth asesu effeithiolrwydd cost, cyn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad gwerth am arian a gyflawnwyd ar gyfres o astudiaethau achos amrywiol a luniwyd o brosiectau Tai yn Gyntaf o fewn y safleoedd a ddewiswyd i'w cynnwys yn y gwerthusiad. Yna cyflwynir astudiaethau achos pellach, wedi'u llunio o enghreifftiau o'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc ac enghreifftiau o Gam 2 i archwilio gwerth am arian mewn perthynas â'r rhaglenni hyn.

2. Canolbwyntio ar Tai yn Gyntaf

- 2.1 Ystyriodd y gwerthusiad ddau wasanaeth a ariennir gan y Rhaglen Grant Tai yn Gyntaf (un ohonynt yn cynnwys tri phrosiect) a dau wasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc a ariennir gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref (YIF). Penderfynodd asesiad hyfywedd o'r data oedd ar gael ei bod yn bosibl datblygu cyfres o astudiaethau achos a senarios i archwilio cost-ffeithiolrwydd ac arbed costau i wasanaethau ehangach, er bod hyn gyda chyfyngiadau.

Cyfyngiadau

- 2.2 Mae defnyddio data manwl gywir ar gyfer dadansoddi cost-ffeithiolrwydd yn golygu rhai heriau. Mae'n anodd cael taflwybrau manwl iawn trwy wasanaethau ac mae'n debygol y gellir eu hadnabod yn unigol. Am y rheswm hwnnw, mae'r astudiaethau achos a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn deillio o enghreifftiau bywyd go iawn, ond mae manylion wedi'u hepgor er mwyn diogelu hunaniaeth y person. Law yn llaw â hyn, mae costau gwirioneddol y gwasanaeth yn ddata masnachol sensitif, sef nid yw awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau digartrefedd eisiau rhannu'n union pa adnoddau y cytunwyd arnynt pan fydd gwasanaeth wedi'i gomisiynu mewn cyd-destun lle mae llawer o gyllid gwasanaethau digartrefedd yn dod trwy dendro cystadleuol. Eir ati yn yr un modd yma hefyd, fel bod costau 'aneglur' yn hytrach na chostau gwirioneddol a/neu rywfaint o amcangyfrif ar sail yr hyn sy'n hysbys am gostau gwasanaeth mewn mannau eraill, yn cael eu defnyddio, yn hytrach na data gwirioneddol. (Pleace a Bretherton, 2019).
- 2.3 Telir am ofal iechyd yng Nghymru trwy ddefnyddio contract bloc. O'r herwydd, nid yw'r tîm ymchwil wedi gallu nodi costau atgyfeirio iechyd penodol i Gymru ar gyfer grwpiau atgyfeirio iechyd unigol ar lefel cleifion unigol. Felly, defnyddir costau atgyfeirio GIG Lloegr yn yr amcangyfrifon cost yn yr adroddiad hwn. Mae'n debygol fod y costau ychydig yn rhy isel oherwydd yr arbedion maint sy'n bosibl yn ninasoedd Lloegr, na fyddai efallai'n bosibl yng Nghymru. Mae rhai symudiadau tuag at ddata lefel achosion mewn gwasanaethau digartrefedd wedi dechrau (Thomas a Mackie, 2021), a gallent o bosibl ddarparu amcangyfrifon mwy manwl gywir ar gyfer cyd-destun Cymru yn y dyfodol.

- 2.4 Mae'n bwysig nodi nad yw pob budd yn hawdd eu mesur. Er enghraifft, efallai y bydd gwasanaeth Tai yn Gyntaf yn gallu helpu rhywun i ailsefydlu cyswllt â pherthynas agos ar ôl ymddieithrio. Er bod tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad yn bwysig mewn iechyd meddwl, ac y gall unigrwydd gynyddu'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd 30% (Sefydliad Iechyd y Byd, 2023), nid yw'n bosibl rhoi gwerth rhifol ar ailgysylltu â rhiant neu blentyn. Mae rhai o'r buddion hyn wedi'u rhestru yn y dadansoddiad hwn; nid yw'r ffaith na phriodolir gwerth ariannol iddynt oherwydd eu bod yn ddiwerth ond oherwydd eu bod yn amhrisiadwy. Mae'r gwrthwyneb yn wir am gysgu allan, nad yw efallai'n arwain at gostau uniongyrchol i awdurdodau lleol (o leiaf yn y tymor byr, ar gyfer llety), ond sydd â risgiau ac anfanteision amlwg i unigolion ac sy'n gallu cynyddu gwariant mwy hirdymor gan y Wladwriaeth.
- 2.5 Yn ogystal, mae'n anodd olrhain pobl ar ôl i ymyraethau ddigwydd. Mae data'r GIG yn gyfrinachol iawn, ac fel arfer nid yw'n bosibl sicrhau a yw enillion unigolyn o ran lleihau eu defnydd o wasanaethau wedi parhau. Mae hefyd yn bwysig sylweddoli bod rhai pobl yn llwyddo i leihau eu defnydd o'r GIG heb ymyrraeth (Y Groes Goch Brydeinig, 2021). Oherwydd y cyfyngiadau hyn, mae'r dadansoddiad yn cymryd ffenestr gymharol dymor byr fel y gorwel tebygol yn hytrach na cheisio priodoli gwerthoedd gydol oes neu ddeng mlynedd i leihau defnydd o wasanaethau.

3. Cost-effeithiolrwydd mewn gwasanaethau digartrefedd

- 3.1 Ar lawer ystyr, gall cost-effeithiolrwydd fod yn anodd ei fesur mewn gwasanaethau digartrefedd. Gall asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth digartrefedd dros amser fod yn anodd pan fydd cyswllt â'r gwasanaethau hynny yn eithaf byrhoedlog, ac mae'n anymarferol olrhain canlyniadau dros amser. Er enghraifft, os bydd rhywun yn defnyddio tai â chymorth, yn gadael digartrefedd drwy'r llwybr hwnnw, ond yna'n colli tenantiaeth ac yn ymddangos fel rhywun digartref mewn awdurdod cyfagos, efallai na fydd unrhyw ffordd o olrhain y profiad hwnnw. Bydd pobl sy'n profi digartrefedd hefyd yn gadael gwasanaethau o'u gwirfodd, a allai fod oherwydd eu bod wedi canfod eu ffordd eu hunain o adael digartrefedd neu efallai ddychwelyd at ddigartrefedd, ond na fyddai hynny'n amlwg efallai oni bai bod cyswllt pellach o ryw fath â gwasanaeth yn digwydd yn ddiweddarach. Yn ogystal, efallai na fydd rhai gwasanaethau trothwy isel, fel lloches brys anffurfiol a weithredir gan eglwys leol mewn modd elusennol, yn cadw cofnodion o gwbl, sy'n golygu, os bydd rhywun sydd wedi ymadael yn aflwyddiannus â gwasanaeth a gomisiynwyd yn cyrraedd yno, ni fydd yn cael ei gofnodi. Pan fo'n anodd olrhain canlyniadau dros amser, gall fod yn anodd dehongli ymadawiadau heb eu cynllunio o wasanaethau digartrefedd a/neu lety dros dro, e.e. y graddau y gallai hunan-ymadawiadau o ddigartrefedd fod yn digwydd law yn llaw â dychweliadau posibl i ddigartrefedd.
- 3.2 Law yn llaw â hyn, gall fod yn gryn her i ddod â data gweinyddol at ei gilydd i archwilio costau o bersbecif amlddimensiwn. Mae Cymru (Thomas a Mackie, 2021) a'r Alban (Vaughan *et al.*, 2018) ill dwy wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cysylltu data gwasanaethau dibyniaeth meddygon teulu a data gwasanaethau iechyd eraill â data gweinyddol a gesglir yn genedlaethol o'u systemau digartrefedd statudol. Fodd bynnag, nid oes gallu yn unrhyw le yn y DU eto i edrych ar daflwybrau unigol 'system gyfan', ar draws poblogaethau digartrefedd cyfan, sef olrhain pob cyswllt â gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, yn cynnwys gofal cymdeithasol/gwaith cymdeithasol, iechyd, iechyd meddwl, dibyniaeth, yr heddlu a chyfiawnder troseddol, ochr yn ochr â phatrymau o ddefnydd gwasanaethau digartrefedd dros amser, fel sydd wedi cael ei ddatblygu yn Nenmarc (Benjaminsen *et al.*, 2020) ac ar raddfa lai yn Unol Daleithiau America (Culhane, 2008). Mae hyn yn golygu ei bod

hi'n anodd gwneud y gwaith o gasglu 'cyfanswm cost' digartrefedd a'r costau y gallai gwasanaethau digartrefedd eu cynhyrchu ar draws systemau cyfan.

- 3.3 Fodd bynnag, mae sawl ffordd y mae'n bosibl archwilio cost-effeithiolrwydd prosiectau digartrefedd. Mae un trwy ddadansoddiad hydredol sy'n olrhain grwpiau ystadegol o bobl sy'n profi digartrefedd dros amser, rhywbeth a all fod yn anodd ei drefnu a'i ariannu. Mae dau ddull arall, sy'n cael eu harchwilio yma, yn golygu:
- Edrych ar beth y gall data gweinyddol sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd gan wasanaethau digartrefedd ei ddweud wrthym am newidiadau mewn llesiant, patrymau defnyddio gwasanaethau ac effeithiolrwydd cymharol gwasanaethau, a
 - Defnyddio astudiaethau achos unigol eithaf manwl ar batrymau defnydd gwasanaeth cyn ac ar ôl ymwneud â gwasanaeth digartrefedd.
- 3.4 Nid yw'r naill na'r llall o angenrheidrwydd yn rhoi darlun llawn. Fodd bynnag, gall data gweinyddol dynnu sylw at bethau sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd, e.e., a yw pobl yn parhau i ddod yn ôl i wasanaeth mewn patrwm 'drws cylchdro', gan ddangos nad yw atebion parhaol i ddigartrefedd yn cael eu cyflawni. Ochr yn ochr â hyn, gall straeon unigol am y defnydd o wasanaeth ddweud llawer wrthym am gapasiti'r gwasanaethau i wrthbwysu costau, hyd yn oed os nad ydynt yn gallu disgrifio pob manylyn. Er enghraifft, gallai astudiaeth achos unigol ddangos bod rhywun yn derbyn gwasanaethau a oedd yn costio £40,000 y flwyddyn ar draws yr holl ddefnydd a wnaeth o wasanaethau a ariennir yn gyhoeddus tra'n ddigartref, ond yna bod Tai yn Gyntaf wedi dod â hynny i lawr i £8,000 y flwyddyn. (Pleace a Culhane, 2016; Pleace a Bretherton, 2019). Yn ei hanfod, mae'n dal yn bosibl cael syniad da o'r hyn sy'n gost-effeithiol, a'r hyn nad yw'n debygol o fod yn gost-effeithiol, o ran strategaeth, cynllunio a rheoli gwasanaeth digartrefedd, hyd yn oed os nad oes cronfa ddata weinyddol gwbl gynhwysfawr ar gael, a fyddai'n caniatáu olrhain yr holl ddefnydd o wasanaethau gan bobl sy'n profi digartrefedd dros amser.
- 3.5 Lle mae systemau cyfan, megis llwybrau hostel sy'n cymryd atgyfeiriadau gan dimau allgymorth stryd ac opsiynau tai, cefnogaeth fel y bo'r angen a, lle bo'n bresennol, Tai'n Gyntaf, yn gweithio gyda'i gilydd, gall data gweinyddol roi gwybodaeth bwysig ar le mae heriau, a lle gellid adolygu'r defnydd o adnoddau. Er enghraifft, deilliodd prosiect Camden HF, y cyntaf yn Llundain, yn rhannol o

ddiddordeb mewn arloesi, ond fe'i hysgogwyd yn bennaf gan dystiolaeth weinyddol o garfan cost uchel, risg uchel, o bobl a oedd yn profi digartrefedd gan ddefnyddio'r Camden Hostels Pathway dro ar ôl tro neu'n cael eu dal yn hirdymor yn yr hyn a ddylai fod yn wasanaethau pontio tai â chymorth. Roedd y defnydd llwyddiannus o Tai yn Gyntaf yn Camden – a'i gost-ffeithiolrwydd – yn deillio o'r ffordd roedd yn cynnig llwybr amgen i'r gwasanaethau digartrefedd sefydledig ar gyfer y rhai oedd ei angen (Pleace a Bretherton, 2019).

3.6 Mae 3 prif ffordd o edrych ar gost-ffeithiolrwydd a fydd yn cael eu harchwilio'n fanylach yn yr adran nesaf, ond yn gryno y rhain yw:

- Effeithlonrwydd cymharol, sef nid yw'n rhatach o reidrwydd ond mae'n fwy llwyddiannus o ran canlyniad, ac felly mae'n ddefnydd mwy effeithlon o gyllid cyhoeddus i gyflawni canlyniadau wedi'u targedu.
- Mae un model gwasanaeth yn gyson ratach na model gwasanaeth arall ac mae ganddo ganlyniadau tebyg neu well.
- Mae cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus yn sylweddol is wrth ddefnyddio un model o wasanaeth digartrefedd o'i gymharu ag un arall.

Tai yn Gyntaf

Cyflwyniad

3.7 Mae'r canlynol yn dangos yn fanwl sut i weithredu'r dulliau uchod, ac yng nghydestun Tai yn Gyntaf:

- Effeithlonrwydd cymharol, e.e., os yw gwasanaeth Tai yn Gyntaf sy'n gweithio'n arferol gyda rhywun am 4 blynedd am gost debyg i dai â chymorth sydd â'r nod o ailsefydlu pobl a rhoi'r gorau i gyswllt â'r gwasanaeth ar ôl 12 mis yn cael gwell canlyniadau, yna mae'n cynrychioli defnydd mwy effeithlon o gyllid cyhoeddus, ond nid yw'n rhatach. Yma, gallai Tai yn Gyntaf fod yn fwy cost-ffeithlon oherwydd bod ganddo gyfradd llwyddiant uwch wrth roi diwedd ar ddigartrefedd ar gostau tebyg a/neu oherwydd bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny'n adrodd am ansawdd bywyd gwell trwy Tai yn Gyntaf na thrwy lwybrau tai â chymorth, eto am gost debyg. Canfuwyd y patrwm hwn ac fe'i defnyddiwyd i gefnogi'r achos dros Tai yn Gyntaf yn yr Unol Daleithiau (Culhane, 2008).

- Un model gwasanaeth yn gyson ratach na model gwasanaeth arall ac yn cael ganlyniadau tebyg neu well. Er enghraifft, gan ddefnyddio Tai yn Gyntaf eto, mae yna rai sy'n dadlau ac yn cyflwyno ymchwil sy'n dweud bod costau cyffredinol fel arfer yn is na'r systemau presennol ar gyfer ei brif grŵp cwsmeriaid, sef pobl yn profi digartrefedd rheolaidd a pharhaus cysylltiedig ag anghenion lluosog a chymhleth, gyda chanlyniadau cymharol neu (yn aml) ganlyniadau gwell na'r systemau presennol (Padgett, Henwood a Tsemberis, 2016).
- Cyfanswm y costau i'r Wladwriaeth yn sylweddol is wrth ddefnyddio un model o wasanaeth digartrefedd o'i gymharu ag un arall. Mae hyn yn golygu bod gostyngiadau ystyrlon mewn gwariant ar wasanaethau iechyd brys a gwasanaethau iechyd meddwl, a'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r gwrthbwyso hwn mewn costau yn cael ei gyflawni gan wasanaeth digartrefedd sy'n cefnogi patrwm o bontio o ddefnyddio gwasanaethau brys yn aml ar gost uchel i lefelau is o ddefnydd cyffredinol o wasanaethau. Er enghraifft, os yw gwasanaeth digartrefedd yn lleihau patrwm o rywun sy'n profi digartrefedd yn rheolaidd yn mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys 60 gwaith y flwyddyn i ddim, a rheolaeth fwy gweithredol o gyflyrau iechyd ac iechyd meddwl yn cymryd lle hynny, gyda chefnogaeth nifer is o ymweliadau â meddyg teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol, mae o fudd i'r bobl y mae'n eu cefnogi ac i'r sector cyhoeddus ehangach drwy wrthbwyso costau.

3.8 Mae angen cymryd rhywfaint o ofal yma, gan fod cymariaethau negyddol o effeithlonrwydd tai â chymorth, o'i gymharu â Tai yn Gyntaf, yn aml yn seiliedig ar ddata Gogledd America (Pleace, 2018). Mae angen ystyried bod y rhan fwyaf o wasanaethau tai â chymorth yn gweithredu ar sail wahanol iawn, ar gost wahanol iawn, yng Nghymru. I ddechrau, roedd Tai yn Gyntaf yn cael ei gymharu ar y dechrau â gwasanaethau Americanaidd a allai fod yn ddrud, llym, seiliedig ar gydymffurfio ag ymataliaeth a thriniaeth, gan ddefnyddio model grisiau neu driniaeth breswyl llinol. Ar y llaw arall, mae tai â chymorth yng Nghymru ac yn ehangach yn y DU wedi bod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y dewis a'r rheolaeth a'r cymorth ystyriol o drawma sy'n rhan o'r arloesedd a gynigir gan Tai yn Gyntaf ers blynyddoedd lawer (Pleace, 1995).

3.9 Mae data o hap-dreialon rheoli arbrofol yng Nghanada (Lachaud *et al.*, 2021) Ffrainc (Aubry *et al.*, 2021) wedi awgrymu y gall Tai yn Gyntaf leihau amllder a hyd y

cyswllt â gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd y gall canlyniadau fod yn amrywiol, yn yr ystyr nad yw Tai yn Gyntaf yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd i bawb y mae'n gweithio gyda nhw, ac yn nhermau graddau'r newid cadarnhaol mewn iechyd meddwl a chorfforol, caethiwed, troseddu a chymorth cymdeithasol y mae'n gallu ei gyflawni (Aubry, 2020). Mae'r patrymau a welir yn Tai yn Gyntaf yn bresennol mewn gwasanaethau digartrefedd eraill hefyd, sef gall yr hyn y gallant ei gyflawni fod yn amrywiol mewn 4 prif ffordd:

- Er mwyn gwrthbwysu'r uchafswm o gostau, mae'n rhaid i rywun fod yn defnyddio gwasanaethau iechyd brys, iechyd meddwl, caethiwed a gwasanaethau brys eraill, gan gynnwys cyswllt rheolaidd â'r system cyfiawnder troseddol ar gyfraddau uchel iawn a gweld y cyfraddau hynny'n gostwng yn sylweddol, neu'n lleihau'n raddol i ddim, oherwydd effeithiolrwydd ymyrraeth gwasanaeth digartrefedd. Os yw'r anghenion yn uchel ac nad oes fawr ddim, neu ddim, defnydd o wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill ar hyn o bryd, bydd cysylltiad â Tai yn Gyntaf neu wasanaethau digartrefedd eraill sy'n rheoli achosion yn effeithiol yn peri cynnydd mewn costau i'r sector cyhoeddus. Yn yr un modd, os oes gan rywun anghenion cymorth, sy'n cael eu gwella gan ymyrraeth gwasanaeth digartrefedd, ond nad oedd eu costau ehangach i'r sector cyhoeddus yn arbennig o uchel, gallai rhywbeth fel Tai yn Gyntaf gynrychioli gwariant ychwanegol (y bydd achos o hyd amdano gan ei fod yn debygol o ddod â'r hyn a fyddai fel arall yn ddigartrefedd hirdymor neu reolaidd, a allai fod â manteision cost¹ mwy hirdymor). Gellir mynd i'r afael â'r heriau yma drwy geisio sefydlu costau gweddol nodweddiadol, a graddau nodweddiadol o wrthbwysu costau, ac yna ystyried a yw gwasanaeth yn lleihau gwariant cyhoeddus cyffredinol ai peidio neu'n ei gynyddu.
- Efallai na fydd modd gwireddu gwrthbwysu costau yn yr ystyr o ddangos yn glir gynnydd mewn capasiti neu greu lle i leihau gwariant. Er enghraifft, os bydd dwsin o bobl ag anghenion cymhleth sy'n cysgu allan yn rheolaidd yn ymddangos yn adran damweiniau ac achosion brys ysbyty mewn dinas fel Caerdydd neu Abertawe, ar gyfartaledd o 40 gwaith y flwyddyn yr un², bydd lleihau neu ddod â'r ymddygiad hwnnw i ben drwy'r cymysgedd cywir o gymorth a rheoli achosion yn amlwg yn cynyddu capasiti mewn adrannau damweiniau

¹ Yn yr ystyr bod costau ymadael o ddigartrefedd hirdymor a rheolaidd yn tueddu i gynyddu (law yn llaw â dirywiad mewn iechyd meddwl a chorfforol, cysylltiad cymdeithasol a chyfleoedd bywyd) yr hiraf y caniateir iddo barhau (Pleace a Bretherton, 2019; Pleace a Culhane, 2016)

² DS: Mae'r rhifau hyn yn rhai dangosol ac at ddibenion eglurhaol yn unig; Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon rhesymol o ymchwil yr awduron mewn manau eraill.

ac achosion brys ac o bosibl yn lleihau straen ar staff clinigol a gweinyddol a chael manteision eraill. Fodd bynnag, bydd y dwsin damcaniaethol hynny o bobl sy'n cysgu allan yn rheolaidd ac yn cyrraedd dro ar ôl tro yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn cynrychioli cyfran fach yn unig o weithgarwch cyffredinol, h.y. nid yw'r ffaith nad ydynt yn dod yno mwyach oherwydd bod eu hanghenion cymorth a thriniaeth bellach yn cael eu diwallu gan ofal sylfaenol a chymdeithasol prif ffrwd, yn creu lefelau ystyrion o amser ychwanegol staff – oherwydd maint y galw cyffredinol am adrannau damweiniau ac achosion brys. Nid yw atal pobl sy'n profi digartrefedd ag anghenion cymhleth dro ar ôl tro rhag defnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys yn golygu'n sydyn bod nyrs neu feddyg sbâr ar gael, oherwydd mae unrhyw le y gallai eu absenoldeb ei greu yn cael ei lenwi ar unwaith gan angen arall. Mae'r un patrwm yn bod mewn perthynas â gwasanaethau cyfiawnder troseddol, e.e., efallai y bydd amser yr heddlu yn cael ei arbed, ond unwaith eto, cymaint yw'r galw cyffredinol na ellir lleihau neu adleoli adnoddau mewn ffyrdd ystyrion (Pleace *et al.*, 2013). Gellir ymdrin â'r heriau o fesur costau canfyddadwy i ryw raddau gan fetrigau amgen, e.e., os yw gwasanaeth digartrefedd yn tynnu pwysau oddi wrth y gwasanaethau brys, o ystyried y straen sydd ar wasanaethau fel damweiniau ac achosion brys, timau iechyd meddwl neu'r Heddlu, gellir yn amlwg ei weld fel rhywbeth sydd o fudd yn gyffredinol.

- Hyd yn oed yn y gwasanaeth digartrefedd mwyaf effeithlon, bydd rhywfaint o anghysondeb mewn canlyniadau. Ar lefel unigol, mae'n rhaid i ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau fel Tai yn Gyntaf neu dai â chymorth dwys sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd gydag anghenion lluosog a chymhleth, ganiatáu ar gyfer yr hyn sy'n aml yn iechyd meddwl a chorfforol gwael iawn ar adeg yr atgyfeiriad. Un broblem yma yw na fydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fel Tai yn Gyntaf o reidrwydd yn gwella, yn enwedig mewn perthynas â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor (a all hefyd ddatblygu fel person 'sy'n heneiddio yn eu lle' yn eu tenantiaeth) hyd yn oed os yw ansawdd y gwasanaeth yn rhagorol ac y gallai gwell cefnogaeth gan Tai yn Gyntaf achosi cynnydd (priodol) mewn costau ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, gall canlyniadau fod yn amrywiol hefyd, fel y nodwyd bod tystiolaeth bod Tai yn Gyntaf yn fwy cyson wrth roi diwedd ar ddigartrefedd nag yw mewn perthynas â gwelliannau mewn iechyd meddwl, caethiwed a lleihau cysylltiadau â'r gwasanaethau brys, er ei fod yn cyflawni rhai gwelliannau (Aubry, 2020). Unwaith eto, wrth edrych ar effeithlonrwydd gwasanaethau, naill ai o ran yr hyn y mae gwasanaeth unigol yn ei wneud neu wrth ei gymharu ag eraill, mae'n bwysig deall sut mae'n arfer ei wneud a beth

yw'r perfformiad cyffredinol, sef bod yn ofalus i beidio â chanolbwyntio ar y llwyddiannau neu'r methiannau unigol mwyaf trawiadol yn unig. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan bobl sydd wedi profi digartrefedd gyflyrau iechyd nad oeddent yn cael triniaeth ar eu cyfer o'r blaen. Yn y tymor byr gall hyn arwain at gostau cynyddol, er yn atal costau uwch yn y dyfodol drwy atal cyflyrau rhag cyrraedd lefelau difrifol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth archwilio effeithiolrwydd gwasanaeth trwy astudiaethau achos unigol.

- Mae asesu'r costau i lesiant unigolion a gwasanaethau brys a gwasanaethau eraill y gallai gwasanaethau a systemau digartrefedd fod wedi'u hatal drwy atal digartrefedd rhag digwydd - sy'n arbennig o bwysig yng nghyd-destun Cymru - yn anodd oherwydd ei fod yn golygu ymdrin â materion damcaniaethol. Fodd bynnag, gall llwybrau personol blaenorol a oedd yn cynnwys digartrefedd rheolaidd a pharhaus a lefelau uchel o ddefnydd gwasanaethau brys, os ydynt wedi'u newid gan gyswllt â'r gwasanaeth digartrefedd, fod yn ddangosydd procsi ar gyfer yr hyn y gallai gwasanaethau fel Tai yn Gyntaf ei wneud mewn modd ataliol (yn yr ystyr o atal digartrefedd yn y lle cyntaf yn hytrach na'r rôl arferol o atal digartrefedd rheolaidd neu hirdymor).

Astudiaethau Achos Gwerth am Arian

- 3.10 Mae'r senarios costau ar gyfer Tai yn Gyntaf yr edrychir arnynt yn yr adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar brosiect gweithredol gwirioneddol Tai yn Gyntaf yng Nghymru. Yn yr achos hwn, mae costau gwirioneddol ar gael ac yn cael eu defnyddio, ond am y rhesymau masnachol, mae'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf a'r awdurdod lleol a'i comisiynodd yn aros yn ddiennw. Yn ogystal, mae'r costau ychydig yn amwys ac aneglur yn yr ystyr bod yr adran hon yn ymatal rhag defnyddio union symiau a allai o bosibl ddangos lle mae'r awdurdod lleol comisiynu a'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf yng Nghymru.
- 3.11 Defnyddir 6 astudiaeth achos, sy'n edrych ar enghreifftiau bywyd go iawn a rannwyd gan y gwasanaeth Tai yn Gyntaf ond gyda manylion personol yn cael eu gadael allan i ddiogelu cyfrinachedd. Fodd bynnag, dylid nodi nad ydynt mewn gwirionedd yn manylu ar y taflwybrau gwirioneddol trwy wasanaethau na phofiadau bywyd unigolion penodol.

Gwerth am Arian: Astudiaeth Achos 1 Tai yn Gyntaf

- 3.12 Mae'r achos cyntaf yn cynnwys rhywun, a oedd yn byw fel unig riant ac y mae ei brofiadau wedi arwain at gaethiwed ac, o ganlyniad, profiad o drama o blentyn yn cael ei dynnu oddi arno i ofal gan y gwasanaethau cymdeithasol. Collwyd tenantiaeth sefydlog tŷ cymdeithasol, a cholodd gysylltiad â'u plentyn hefyd. Nid oedd gan y rhiant hanes blaenorol o ddigartrefedd ac ni pharhaodd ei brofiad ohono.
- 3.13 Ers ymwneud â gwasanaeth Tai yn Gyntaf, mae wedi gallu dod â'i ddefnydd o gyffuriau dan reolaeth ac ailsefydlu cyswllt sefydlog â'r plentyn a gafodd ei gymryd i ofal. Yn yr enghraifft hon, mae'r person sy'n defnyddio Tai yn Gyntaf yn dioddef trawma difrifol ac mae ganddo amrywiaeth o anghenion emosiynol, cymdeithasol, ymarferol ac eraill. Fodd bynnag, nid yw o fewn y grŵp 'cost uchel, risg uchel' sy'n cael ei nodweddu gan ddefnydd aml a pharhaus iawn o'r gwasanaethau brys. Mae Tai yn Gyntaf wedi cyflawni canlyniad sefydlog, yn yr ystyr eu bod wedi'i gartrefu, mae ei brif anghenion triniaeth a chymorth ynghylch caethiwed wedi'u sefydlu a'u anghenion cymdeithasol ac emosiynol wedi'u diwallu yn rhannol o leiaf drwy ailsefydlu cyswllt â'u plentyn.

3.14 Arweiniodd yr achos hwn at gostau sylweddol i'r pwrs cyhoeddus cyn Tai yn Gyntaf oherwydd y colli tenantiaeth trwy droi allan. Nid yw'r costau sydd yma, sef costau sy'n seiliedig ar ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n cynnwys amcangyfrif o gyfanswm costau Shelter Cymru o £26,000, o angenrheidrwydd y gost a fyddai'n cael ei thalu gan landlord cymdeithasol unigol o reidrwydd, a allai fod yn yr ystod £6,000-£7,000 (Llywodraeth Cymru, 2019). Amcangyfrifir hefyd y gost o arhosiad 6 wythnos mewn llety dros dro digartrefedd gwely a brecwast, yn dilyn asesiad gan dîm opsiynau tai, tua £500 yr wythnos. Fodd bynnag, er ei fod yn ddigartref a'u plentyn wedi cael ei gymryd i ofal, nid yw'n defnyddio'r gwasanaethau brys, na'r GIG na gwasanaethau gwaith cymdeithasol (oedolion) yn ystod y flwyddyn cyn derbyn cymorth Tai yn Gyntaf. Mae cymorth angenrheidiol ar waith ynghylch y caethiwed a'r trawma sy'n gysylltiedig â'r plentyn sydd wedi cael ei gymryd i ofal ac er mwyn atal digartrefedd pellach, ac mae'r canlyniadau'n gadarnhaol, ond maen nhw'n costio mwy i'r Wladwriaeth na chyn i ddigartrefedd ddigwydd oherwydd eu bod wedi'u cysylltu'n well â gwasanaethau trwy'r ffordd mae Tai yn Gyntaf yn rheoli achosion. Fodd bynnag, heb Tai yn Gyntaf, efallai y byddai risg o ddigartrefedd pellach drwy fethiant tenantiaeth a throï allan a rhagor o arosiadau mewn llety brys a dros dro. Mae'n bwysig iawn cofio hefyd fod cost ddynol digartrefedd ar y teulu wedi cael ei liniaru gan Tai yn Gyntaf.

Gwerth am Arian: Astudiaeth Achos 2 Tai yn Gyntaf

3.15 Mae'r ail astudiaeth achos yn berson, y mae ei daflwybr trwy wasanaethau wedi'i lywio gan gyfres o berthnasau camdriniol a thrwy iddo fod yn ddiodefwr trosedd ac yn droseddwr ei hun. Roedd ei fywyd yn cynnwys cyswllt mynych â gwasanaethau cyfiawnder troseddol, ac roedd wedi cael ei garcharu sawl gwaith. Roedd problemau gydag iselder a phrofiadau lluosog o ddigartrefedd cudd.

3.16 Yn y flwyddyn cyn ymwneud â Tai yn Gyntaf, cwblhaodd fisoedd olaf dedfryd o garchar ac, yn ddigartref ar ôl cael ei ryddhau, cafodd ei letya dros dro mewn gwely a brecwast am 3 wythnos, yn dilyn asesiad gan dîm Opsiynau Tai. Yn fuan ar ôl gadael y carchar, symudodd i mewn gyda'i bartner ar y pryd, roedd y berthynas yn gamdriniol a gadawodd ar ôl 6 wythnos, gan ymuno â gwasanaeth trais domestig am 2 fis. O'r gwasanaeth hwn cafodd ei ailgyfeirio at opsiynau tai a'i osod mewn

tai â chymorth i bobl sy'n profi digartrefedd am 4 mis arall, ac ar yr adeg honno cafodd ei dderbyn i'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf lle cafodd gefnogaeth. Er iddo dderbyn cefnogaeth yn y tai â chymorth, nid oedd triniaeth ar gyfer materion iechyd meddwl a chaethiwed parhaus ar waith pan ddechreuodd Tai yn Gyntaf weithio gydag ef. Ers ymwneud â Tai yn Gyntaf, mae wedi cael ei osod mewn llety cymdeithasol sefydlog ac mae cyswllt parhaus wedi bod â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol a gwasanaethau caethiwed, nid yw wedi aildroseddu, ac mae ei iechyd meddyliol a chorfforol wedi gwella.

- 3.17 Mae'r tablau isod yn dangos costau i'r Wladwriaeth sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn cyn cymryd rhan yn Tai yn Gyntaf o'i gymharu â chost blwyddyn o dderbyn Tai yn Gyntaf am y ddwy astudiaeth achos.

Tabl 2 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 1 ar gyfer Tai yn Gyntaf

<i>Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 1: Cyn Defnyddio Tai yn Gyntaf</i>	
Disgrifiad o'r gost i'r Wladwriaeth <u>cyn</u> ymuno â Tai yn Gyntaf	Amcangyfrif o'r gost i'r wladwriaeth (£)
Tenantiaeth rhent cymdeithasol am 46 wythnos ¹	£4,830
Troi allan gan landlord cymdeithasol ²	£26,000
Asesiad Opsiynau Tai ³	£1,090
Llety dros dro am chwe wythnos (Gwely a Brecwast) ⁴	£3,000
<u>Amcangyfrif o'r cyfanswm</u>	<u>£34,920</u>
<i>Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 1: Blwyddyn o Ddefnyddio Tai yn Gyntaf</i>	
Disgrifiad o'r gost i'r Wladwriaeth <u>am un flwyddyn</u> o Tai yn Gyntaf	Amcangyfrif o'r gost i'r wladwriaeth (£)
Costau Cymorth Tai yn Gyntaf ⁵	£13,000
Tenantiaeth rhent cymdeithasol am un flwyddyn ⁶	£5,460

Gwasanaeth gweithwyr cymdeithasol (gwasanaethau plant) @40 awr ⁷	£2,000
Gwasanaethau caethiwed @40 awr ⁸	£3,200
<u>Amcangyfrif o'r cyfanswm</u>	<u>£23,660</u>

<ol style="list-style-type: none"> 1. Llywodraeth Cymru (2023)³ 2. Llywodraeth Cymru (2019) ⁴ 3. Yn seiliedig ar ymchwil atal 2015 a 2016, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant⁵ 4. Amcangyfrif 5. Yn seiliedig ar gyfanswm costau gwirioneddol gwasanaeth Tai yn Gyntaf, gan gynnwys costau cymorth a swyddfa gefn (wedi ei anonymeiddio Cyfartaledd Pro rata, (er y gallai gwariant gwirioneddol ar bob defnyddiwr gwasanaeth ostwng neu godi dros amser) 6. Fel 1 7. Ffynhonnell: Jones, KC et al (2022) Unit costs of Health and Social Care 2022 Manual.⁶ 8. Fel 7
--

Mae astudiaeth achos 1 yn dangos amcangyfrif o arbediad o £11,260 i'r Wladwriaeth.

Tabl 3 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 2 ar gyfer Tai yn Gyntaf

Astudiaeth Achos 2: Cyn Defnyddio Tai yn Gyntaf	
Disgrifiad o'r gost i'r Wladwriaeth <u>cyn</u> mynd i mewn i Tai yn Gyntaf	Amcangyfrif o'r gost i'r wladwriaeth (£)
4 mis olaf dedfryd o garchar ⁹	£15,230
2 asesiad gan Opsiynau Tai ¹⁰	£2,180
3 wythnos mewn llety dros dro (gwely a brecwast) ¹¹	£1,500
6 wythnos yn nhŷ cyn-bartner	£0

³ [Stats Cymru: Rhenti wythnosol cyfartalog mewn stoc ar rent cymdeithasol yn ôl math o annedd, nifer yr ystafelloedd gwely a math o ddarparwr](#)

⁴ [Deall troi allan tai cymdeithasol yng Nghymru](#) Sylwch mai cyfanswm cost amcangyfrifedig gan Shelter Cymru yw hyn a gall y costau gwirioneddol a delir gan landlordiaid cymdeithasol fod yn yr ystod o £6-7,000.

⁵ Pleace, N. (2015) a Pleace, N. and Culhane, D. (2016) fel uchod (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio dull Banc Lloegr o gyfrifo)

⁶ [Costau Uned Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 Llawlyfr](#)

2 fis mewn gwasanaeth lloches ¹²	£3,416
4 mis mewn hostel ¹³	£5,238
<u>Amcangyfrif o'r cyfanswm</u>	<u>£27,564</u>
<i>Astudiaeth Achos 2: Blwyddyn o Ddefnyddio Tai yn Gyntaf</i>	
Disgrifiad o'r gost i'r Wladwriaeth <u>am un flwyddyn</u> o Tai yn Gyntaf	Amcangyfrif o'r gost i'r wladwriaeth (£)
Costau Cymorth Tai yn Gyntaf ¹⁴	£13,000
Tenantiaeth rhent cymdeithasol ar gyfer blwyddyn ¹⁵	£5,460
Chwe ymweliad Meddyg Teulu ¹⁶	£287
<u>Amcangyfrif o'r cyfanswm</u>	<u>£18,747</u>
<p>9. Ffynhonnell: Statista (2022)⁷</p> <p>10. Fel 3</p> <p>11. Amcangyfrif</p> <p>12. Yn seiliedig ar Pleace and Bretherton (2019)⁸</p> <p>13. Fel 12</p> <p>14. Fel 5</p> <p>15. Fel 1</p> <p>16. Fel 7</p>	

Mae astudiaeth achos 2 yn dangos amcangyfrif o arbediad o £8,817 i'r Wladwriaeth.

3.18 Mae astudiaeth achos Gwerth am Arian 2 yn cynrychioli rhyw fath o archdeip o effeithiolrwydd cost posibl Tai yn Gyntaf oherwydd y cyfuniad o anghenion cymhleth a'r defnydd o wasanaethau brys. Mae gan yr unigolyn hefyd ddefnydd anwadal a pharhaus o wasanaethau digartrefedd a llety dros dro drud ac ansicr, a chyswllt â'r system cyfiawnder troseddol sy'n dod â chost ariannol uchel i'r Wladwriaeth. Mae unigolion sydd â'r mathau hyn o dafwybrau yn bod, a phan fydd Tai yn Gyntaf, fel y gall ddigwydd, ac sy'n digwydd, yn peri newid amlwg mewn llesiant, cydweithrediad

⁷ [Gwariant cyfartalog blynyddol ar adnoddau cyffredinol fesul lle carchar yng Nghymru a Lloegr rhwng 2015 a 2022](#)

⁸ Pleace, N. a Bretherton, J. (2019) fel uchod.

â chymorth a thriniaeth a llety sefydlog, gall y costau ariannol i'r pwrs cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r unigolyn hwnnw ostwng yn sylweddol. Yma, mae Tai yn Gyntaf yn cyflawni canlyniadau gwell wrth fynd i'r afael â chost ddynol digartrefedd a lleihau'r risg o ddigartrefedd pellach ddigwydd. Felly, mae'n lleihau gwariant cyhoeddus cyffredinol.

- 3.19 Fel y nodwyd uchod, mae peth o'r feirniadaeth a anelir at Tai yn Gyntaf yng Ngogledd America wedi defnyddio'r ddadl bod yn rhaid i'r cyfuniad 'cywir' o anghenion uchel a chymhleth a'r defnydd aml o wasanaethau brys a digartrefedd fod yn bresennol er mwyn i Tai yn Gyntaf arbed arian, sef bod honiadau bod pryd bynnag y bydd Tai yn Gyntaf yn dod â digartrefedd i ben, y bydd hefyd yn lleihau'r bil i drethdalwyr, wedi eu gorliwio, oherwydd nad yw'r patrymau hyn o ddefnydd uchel o wasanaethau brys yn wir am bawb. Mae'r ddadl hon ar y llaw arall yn esgeuluso dimensiynau dynol digartrefedd a'r manteision economaidd-gymdeithasol ehangach o leihau presenoldeb digartrefedd hirdymor a rheolaidd, gan gynnwys cysgu allan, ond nid yw chwaith yn rhoi fawr o sylw i dystiolaeth ynghylch effeithlonrwydd costau cymharol, sef bod gwariant cyhoeddus ar rai mathau o wasanaethau digartrefedd, fel Tai yn Gyntaf, yn lleihau digartrefedd yn fwy effeithiol. Mewn geiriau eraill, hyd yn oed os yw gwasanaethau fel Tai yn Gyntaf, o'u pwysu a'u mesur, yn costio tua'r un fath, mae'r gwariant hwnnw yn arwain at ostyngiadau mwy mewn digartrefedd a'r rheini hefyd yn ostyngiadau mwy parhaol.

Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 3: Goblygiadau cost cymorth hwyr i fynd i'r afael â defnyddio cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a haint difrifol

- 3.20 Cafodd y tîm ymchwil wybodaeth yn ymwneud ag achos rhywun oedd wedi bod yn ddigartref am dros ugain mlynedd. Roedd yr unigolyn yn defnyddio alcohol, ac weithiau crac cocên a heroin. Roedd ganddo hanes o COPD ac o broblemau gyda'i draed. Yn ogystal, roedd yn cael trafferth gyda rheolaeth emosiynol, yn aml yn cefnu ar leoliadau llety dros dro gan olygu ei fod yn cael eu troi allan dro ar ôl tro. Mae gwybodaeth yn dangos cylchdroi parhaus drwy wasanaethau digartrefedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd gan y person yn yr achos hwn hefyd hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig ymladd. O ganlyniad i'w broblemau, roedd wedi colli cysylltiad â'u plentyn.

- 3.21 Dechreuodd y tîm Tai yn Gyntaf ymwneud ag ef tra oedd yn cysgu allan ac 'o sofffa i sofffa'. Nid oedd yn gallu cynnal hylendid da a chafodd clwyf safle pigiad ei heintio'n ddifrifol. Roedd wedi gwrthod mynd i'r ysbyty, er bod yr haint yn amlwg iawn i'r gweithwyr cymorth ac yn debygol o fod yn boenus. Fe gymerodd y tîm wythnosau i'w berswadio i fynd i'r ysbyty. Arweiniodd y presenoldeb hwn at lawdriniaeth frys, wythnos yn yr uned gofal dwys a 6 wythnos ar ward gyffredinol.
- 3.22 Ar ôl mynd i'r ysbyty, cafodd ei gartrefu drwy Tai yn Gyntaf ac mae bellach mewn cysylltiad rheolaidd â'r uned gaethiwed gymunedol, gyda chefnogaeth y tîm Tai yn Gyntaf. Nid oes angen gwasanaethau meddygol aciwt wedi bod arno o gwbl ac nid yw wedi cael unrhyw gysylltiad pellach â'r heddlu.
- 3.23 Mae dwy gymhariaeth cost bosibl yn yr achos hwn; un fyddai cymharu costau'r ymyrraeth ar hyn o bryd â'r gost o beidio ag ymyrryd. Fodd bynnag, mae'n debygol, y gallai fod wedi marw o'r haint heb ymroddiad y tîm a'i cefnogodd. Roedd yr oedi cyn cael triniaeth yn dangos amharodrydd eithafol i gydweithredu, a byddai'r haint wedi parhau i waethygu oni bai ei fod wedi cael cymorth i fynychu.
- 3.24 Y gymhariaeth fwy defnyddiol felly yw cymharu costau'r ymyrraeth hon â'r hyn a fyddai wedi digwydd pe na bai wedi cael eu heintio mor ddifrifol. Er na all y dadansoddiad ddatgan gyda sicrwydd y byddai mynediad at dai yn gynharach wedi ei atal rhag ymladd na rhag cael haint yn y safle pigiad, mae'n debygol y byddai tai diogel a pherthynas o ymddiriedaeth gyda gweithwyr cymorth Tai yn Gyntaf wedi lleihau'r risg (ac mae'r mewnbynnau hyn bellach wedi lleihau'r risg o hyn yn digwydd eto yn y dyfodol). O gofio nad yw bellach yn ymwneud â'r heddlu, mae costau ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd wedi'u cynnwys.

Tabl 4 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 3

Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 3: Cost gymharol cyn ac ar ôl ymyrraeth Tai yn Gyntaf		
Disgrifiad o'r amcangyfrif o'r gost i'r Wladwriaeth cyn ymyrraeth Tai yn Gyntaf	Amcangyfrif o'r gost i'r Wladwriaeth cyn ymyrraeth Tai yn Gyntaf (£)	Amcangyfrif o'r gost i'r Wladwriaeth ar ôl ymyrraeth Tai yn Gyntaf (£)
2 asesiad Opsiynau Tai (er enghraifft)	£2,180	£0
Lleoliad mewn llety dros dro / hostel y noson x 20	£1,400	£0
Camau pellach angenrheidiol yn sgil ymddygiad gwrthgymdeithasol (cost delio â digwyddiad) (fesul achlysur) ¹	£780	£0
Adran Achosion Brys ²	£86	£0
1 wythnos mewn uned gofal dwys ysbyty ³	£16,267	£0
6 wythnos ar ward gyffredinol ⁴	£19,970	
Amcangyfrif o fynediad brys ar gyfer bacteraemia syml, haint sy'n gysylltiedig ag anafiadau safle chwistrellu ⁵	-	£826
Costau cymorth Tai yn Gyntaf fel yn Astudiaethau Achos 1 a 2	-	£13,000
<u>Amcangyfrif o gyfanswm y costau i'r Wladwriaeth</u>	<u>£40,683</u>	<u>£13,826</u>

Gwybodaeth am ffynonellau:

1. GMCA (2022) Cronfa Ddata Cost Uned (v.2.3.1)
2. Gobaith *et al.* (2008)
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (2020) 55/19/FOI – defnyddir hwn fel cymharydd rhesymol gan nad oes data cenedlaethol wedi ei gyhoeddi ar hyn yng Nghymru.
4. fel 3.
5. Fel 3.

Canolbwyntio ar gostau angyfrifadwy

- 3.25 Yn ogystal, ailgysylltodd y person yn Astudiaeth Achos 3 â'u plentyn, sy'n rhywbeth nad yw'n bosibl cyfrifo gwerth ariannol ar ei gyfer, ond gallwn dybio bod manteision i'w iechyd corfforol a meddyliol. Nododd ei weithiwr Tai yn Gyntaf fod newid wedi digwydd yn y ffordd nad yw bellach yn ystyried ei hun yn ddigartref, mae ei hunanbarch wedi cynyddu, ac mae'n teimlo'n fwy cadarnhaol am ei ddyfodol.

Canolbwyntio ar gostau iechyd a gofal cymdeithasol

- 3.26 Mae'n werth nodi cost rheoli COPD ar lefel ymweliad neu arhosiad ysbyty o'i gymharu â chost senario tebygol gweithiwr Tai yn Gyntaf sy'n annog y person i fynychu apwyntiadau meddyg teulu i reoli'r cyflwr. Gan ddefnyddio costau atgyfeirio GIG Lloegr ar gyfer trin COPD (GIG Lloegr, 2023), y gost i'r Wladwriaeth cyn ymyrraeth Tai yn Gyntaf yw £3,723. Yn ystod yr ymyrraeth, lle gellir rheoli'r cyflwr gyda chymorth, cost apwyntiad meddyg teulu ar gyfer rheoli COPD yw £36 (NICE, 2018). Mae costau yn cael eu lleihau'n sylweddol yn dibynnu ar ddifrifoldeb y cyflwr, ar gyfer ymweliadau cylchol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i reoli costau'r clefyd yn amrywio o COPD ysgafn (£26) fesul cylch, COPD cymedrol (£28) a COPD difrifol (£189) (NICE, 2018).
- 3.27 Mae'r enghreifftiau canlynol yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y costau posibl a'r potensial o osgoi costau i'r GIG sy'n deillio o ymyrraethau Tai yn Gyntaf, sef eu bod yn wahanol i'r astudiaethau achos uchod gan nad ydynt yn ceisio amcangyfrif na chynnwys costau tai, cymorth na gwasanaethau eraill (gan gynnwys yr ymyrraeth Tai yn Gyntaf ei hun) y tu allan i ddarpariaeth gofal iechyd.

Cael triniaeth ar gyfer canser

- 3.28 Roedd unigolyn yn derbyn cefnogaeth gan y tîm Tai yn Gyntaf. Roedd yn profi cryn dipyn o boen oherwydd cyflwr iechyd parhaus ac yn defnyddio heroin i reoli'r boen.

Fodd bynnag, roeddt yn amharod i ymwneud â gwasanaethau iechyd oherwydd y cywilydd a'r 'stigma' roedd yn eu cysylltu â'i gyflwr. Ar ôl cyfnod o salwch, perswadiodd gweithwyr cymorth Tai yn Gyntaf ef i ofyn am gymorth meddygol, a chafodd ddiagnosis o ganser. Roedd ei weithwyr cymorth Tai yn Gyntaf yn teimlo nad oedd 'unrhyw ffordd' y gallai fod wedi rheoli'r radiotherapi ar gyfer hyn ar y stryd ac y byddai wedi marw pe na bai'r tîm wedi gallu mynd ag ef i radiotherapi dyddiol am 6 wythnos.

- 3.29 Yn yr enghraifft hon, amcangyfrifir bod y costau cymedrig sy'n gysylltiedig â thriniaeth canser oddeutu £12,000 (Bending *et al.*, 2010). Byddai achub ei fywyd hefyd wedi gofyn am lefel uchel iawn o amser staff Tai yn Gyntaf. Roedd angen mynd ag ef yn ôl ac ymlaen i radiotherapi bob dydd am 6 wythnos a rhoi cymorth iddo gartref rhwng triniaethau. Ar wahân i gyfradd fesul awr y gweithwyr, byddai costau cyfleoedd wedi bod hefyd oherwydd na fyddent wedi gallu rheoli eu llwyth achos arferol mor hawdd tra'n helpu'r person hwn, er ei bod yn ddiamheuol mai dyma'r peth iawn iddynt ei wneud.
- 3.30 Mae Marie Curie (Gofal Canser Marie Curie, 2012) yn amcangyfrif bod cost diwrnod o ofal lliniarol yn y gymuned yn £145, o'i gymharu â chost o hyd at £425 mewn uned lliniarol arbenigol. Er nad oedd y gofal yn yr astudiaeth achos hon yn lliniarol, mae'n bosibl y byddai'r person wedi gorfod mynd i'r ysbyty gan ei fod heb gartref diogel i ddychwelyd iddo, ac achosi costau tebyg oherwydd hynny. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae'r ddadl am gostau yma yn llai pwysig na'r tebygolrwydd o'r person yn marw heb ymyrraeth y gweithwyr tai wrth ei berswadio i fynd i'r ysbyty ac yna ei helpu i reoli'r radiotherapi.

Eiddilwch mewn pobl ag anghenion tai

- 3.31 Mae enghraifft arall yn dangos y mater cymhleth o eiddilwch mewn pobl sydd ag anghenion tai.
- 3.32 Mae eiddilwch yn fater difrifol mewn gofal iechyd i bobl sy'n profi digartrefedd parhaus a rheolaidd. Er enghraifft, mae un astudiaeth (Rogans-Watson *et al.*, 2020) yn dangos bod 55% o drigolion un hostel digartrefedd yn Llundain wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n glinigol eiddil, er ei bod yn werth nodi bod eiddilwch corfforol sy'n gysylltiedig â henaint yn llai cyffredin ymhlith y rhai sy'n profi digartrefedd

parhaus oherwydd fod cyfraddau marwolaethau yn uchel i'r grŵp hwn. Yn y DU, '46 oed yw cyfartaledd oedran marwolaeth i ddynion, a 44 oed i fenywod' (Blood, Birchall a Pleace 2021, t.22). Mae'r patrymau angen penodol a nodweddir gan eiddilwch yn cael eu cysylltu'n amlach â grwpiau targed Tai yn Gyntaf sy'n cynnwys unigolion cost uchel a risg uchel.

- 3.33 Yn yr achos hwn, roedd person hŷn wedi bod yn ddigartref am dros 25 mlynedd ac wedi symud i lety, mewn gwesty i ddechrau, yn ystod ymgyrch Neb Heb Help yn ystod COVID-19. Nid oedd ganddo unrhyw hanes o ryngweithio â'r heddlu ac fe'i disgrifiwyd fel rhywun 'bregus' a 'phersonoliaeth dyner', gan gymryd amser hir i ddod yn gyfforddus â rhyngweithio a bod dan do. Rywbryd ar ôl iddo gael cymorth i lety sefydlog gan y tîm Tai yn Gyntaf, daeth i'r amlwg fod ganddo anghenion gofal a hylendid, a - gydag eiriolaeth gan y tîm Tai yn Gyntaf - aseswyd fod arno angen tri ymweliad yr wythnos gan ofalwr a drefnwyd gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae'n annhebygol y byddai'r person wedi ffynnu mewn amgylchedd cartref gofal prif ffrwd. Roedd yn gwerthfawrogi'n dawel ac roedd arno angen gofal tyner, unigol a'r rhyddid i fynd i lefydd cyfarwydd. Mae hefyd yn anodd sicrhau lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl ddigartref. Gall hyn fod oherwydd anawsterau parhaus gyda chyffuriau neu ddefnyddio alcohol, er nad oedd yr unigolyn hwn yn defnyddio'r naill na'r llall. Gall hefyd fod oherwydd gwahanol ffyrdd o fyw, prinder lleoedd, a'r canfyddiad na fyddai'n addas i rywun sy'n iau nag oed ymddeol gael ei letya â phobl llawer hŷn.
- 3.34 Hyd yn oed pe gellid canfod lleoliad gofal preswyl addas, byddai cost hyn i'r Wladwriaeth yn llawer uwch na chost y cymorth Tai yn Gyntaf ynghyd â gofal cartref. Mae gofal cartref fel arfer yn costio £20-£22 yr awr i'r awdurdod lleol (Cyngor Abertawe 2023; Cyngor Sir Caerfyrddin, 2023).⁹ Gan ddibynnu ar ba mor hir yw'r ymweliadau, byddai'r gost flynyddol oddeutu £1,600 i £3,300 y flwyddyn ac rydym wedi amcangyfrif bod costau cymorth Tai yn Gyntaf yn £13,000 y flwyddyn. Ar y llaw arall, mae cartref gofal preswyl cyfartalog Cymru yn costio £760 yr wythnos (Munson, 2014) (£39,520 y flwyddyn) ac, o ystyried anghenion a ffordd o fyw yr unigolyn, efallai y byddai angen lleoliad llai, mwy arbenigol, ac felly drutach.

⁹ Er enghraifft, ar adeg ysgrifennu, cyfradd Cyngor Abertawe yw £21.84 yr awr; Mae Sir Gaerfyrddin yn £20 yr awr. Mae'r awdurdodau hyn wedi cael eu dewis ar hap ac oherwydd bod eu costau yn cael eu cyhoeddi, i roi arwydd.

3.35 Gall fod cael cartref ddiogel a hwyluso mynediad i amrediad o wasanaethau wedi atal lluo o broblemau sy'n gysylltiedig ag eiddilwch, a allai yn ei dro fod wedi arwain at dderbyniadau i Adran Achosion Brys neu ysbyty. Mae eiddilwch yn gysylltiedig â:

- Toresgyrn
- Gwendid cyhyrau
- Blinder
- Diffyg maeth a cholli pwysau anfwriadol
- Golwg neu glyw gwael
- Dirywiad cof ac iechyd meddwl.

3.36 Mae costau gofal cymdeithasol (ar brisiau 2022) yn amcangyfrif bod costau blynyddol ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y gymuned yn £2,895 o'i gymharu â £321 i'r rhai nad ydynt yn eiddil. Mae costau gofal iechyd blynyddol ychwanegol i'r rhai sydd â bregusrwydd yn Lloegr (Han *et al.*, 2019) yn amrywio o £561.05 i £1,208.60 gan ddibynnu a yw eiddilwch yn ysgafn, cymedrol neu'n ddifrifol. Mae ffigyrau derbyn brys ar gyfer Lloegr hefyd yn uwch i'r rhai ag eiddilwch, sef £3,147 o'i gymharu â £2,128 i'r rhai nad ydynt yn eiddil (Uned Strategaeth, 2023).

Canolbwyntio ar gostau i'r System Cyfiawnder Troseddol

3.37 Mae costau i'r system Cyfiawnder Troseddol mewn perthynas â Tai yn Gyntaf hefyd yn werth eu nodi. Er enghraifft, roedd gan un unigolyn a oedd yn hysbys i wasanaethau cyn derbyn Tai yn Gyntaf, anhwylder personoliaeth a heriau iechyd meddwl, roedd yn defnyddio alcohol ac roedd mewn trafferthion cyson gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yng nghanol y ddinas. Roedd yr unigolyn yn cychwyn ymladd gyda phobl ac yn cael trafferth gydag awdurdod. Ar ôl canfod tai sefydlog mewn bloc bach yn ei ddewis ardal, gostyngodd ei ryngweithiadau â swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu o '6 diwrnod yr wythnos' i ddim. Yn ogystal, pan gafodd anghydfod gyda chymydog, roedd yn gallu gofyn i'r swyddog cymorth cymunedol yr heddlu helpu i gyfryngu hyn. Yn ystod y cyfnod gwerthuso, roedd yr unigolyn wedi datblygu perthynas gadarnhaol â dau weithiwr cymorth Tai yn Gyntaf ac roedd yn gallu rheoleiddio ei deimladau a theimlo nad oedd yn cael ei lethu'n gymaint â phan oedd yng nghanol y ddinas.

- 3.38 Mae adroddiad ar gyfer Uned Atal Trais Cymru (Jones *et al.*, 2020) yn dangos bod y gost gyfartalog o drin anafiadau sy'n deillio o ymosodiad treisgar corfforol yn £1,254 (prisiau 2018/19) i'r rhai oedd angen triniaeth.
- 3.39 Er ei fod yn seiliedig ar gyd-destun y DU, mae Cronfa Ddata Costau Uned Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf (GMCA, 2022) yn amcangyfrif bod digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol lle mae angen gweithredu pellach yn costio £780. Mae cost arestio os cedwir rhywun yn £826 ychwanegol.
- 3.40 Heb fanylion ynghylch pa mor aml roedd y person hwn yn cychwyn ymladd â phobl a ymladdodd yn ôl neu'r union nifer o arestiadau a gafodd y person hwnnw mewn mis, mae'n anodd amcangyfrif y costau a arbedwyd drwy letya a chefnogi'r person hwn. Fodd bynnag, mae buddion ariannol clir o ran osgoi amser swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn cael ei ddefnyddio, ac o bosibl o ran llai o anafiadau o ymosodiad, i'r person hwn ac i eraill. Mae'n debygol hefyd bod budd cyhoeddus o ran nad ydynt mwyach dan straen ac yn achosi niwsans yng nghanol y ddinas.

Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 4: Un gwasanaeth Tai yn Gyntaf: data cyfanredol ar ddefnydd ehangach o wasanaethau

- 3.41 Gan ddychwelyd nawr at bedwaredd astudiaeth achos Tai yn Gyntaf lle'r oedd un gwasanaeth Tai yn Gyntaf a samplwyd ar gyfer y gwerthusiad, yn gallu cyflenwi data cyfanredol a dienw ar ddefnydd ehangach o wasanaethau'n ymwneud â'r canlynol:

- Nosweithiau yn nalfa'r heddlu
- Nosweithiau yn yr ysbyty neu ymweliadau cleifion allanol
- Ymweliadau ag Adran Achosion Brys
- Nosweithiau ar y stryd.

Nosweithiau yn nalfa'r heddlu

- 3.42 Ar ôl adolygu'r amcangyfrifon cost uned sydd ar gael am noson yn nalfa'r heddlu, mae'r tîm ymchwil yn tybio cost o £300 y noson¹⁰.

¹⁰ Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ffigurau Cymru a adroddwyd gan Newyddion y BBC (2017) o £260, a fyddai wrth ystyried chwyddiant ar gyfer prisiau 2022, yn cynhyrchu tua £300, gan ddefnyddio Banc Lloegr o gyfrifo chwyddiant y DU [Cyfrifiannell Chwyddiant Cyfrifiannell \(Banc Lloegr\)](#)

- 3.43 Cyn yr ymyrraethau Tai yn Gyntaf, treuliodd cyfanswm o 246 noson yn y ddalfa. Achoswyd hyn gan 8 unigolyn, gyda gweddill y bobl heb gael unrhyw arosiadau yn nalfa'r heddlu. Mae hyn yn golygu, o'r bobl hynny a oedd yn nalfa'r heddlu, mai cost gyfartalog y person am arosiadau yn y ddalfa cyn yr ymyrraeth oedd £9,225 ((246 noson*£300)/8 o bobl), neu gyfanswm cost i'r heddlu o £73,800.
- 3.44 Ar ôl yr ymyrraeth, gostyngodd hyn i 163 noson ymhlith yr un garfan. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiadau i'r rhan fwyaf o'r 8 o bobl, cynnydd bach i un person, ac un person nad oedd wedi aros yn y ddalfa o'r blaen yn cael 90 diwrnod dan glo. Roedd hyn, ar y cyfan, yn arbediad i'r heddlu; cyfanswm y gwariant oedd £48,900 (163 noson *£300). Gostyngodd nifer y bobl yn nalfa'r heddlu hefyd o 8 o bobl i 5 o bobl. Roedd hyn yn golygu cost uwch fesul person ar gyfartaledd, o £9,780. Fodd bynnag, gellir priodoli'r rhan fwyaf o hyn i un unigolyn. Mae hyn yn cynrychioli amcangyfrif o arbediad o £24,900 i'r Wladwriaeth.

Cyswllt ag ysbyty ac adran cleifion allanol

- 3.45 Yn anffodus, mae'r data a ddarperir gan y prosiect Tai yn Gyntaf yn cronni arosiadau dros nos mewn ysbyty ac ymweliadau ag adrannau cleifion allanol. Mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl gwneud sylwadau ystyrlon ar gostau nac ar ddefnydd o'r GIG, gan fod y rhain yn fetrigau gwahanol iawn. Cyn Tai yn Gyntaf, cafwyd 78 noson yn yr ysbyty neu ymweliadau ag adrannau cleifion allanol rhwng pawb o'r garfan. O'r rhain, roedd 56 ohonynt i'w priodoli i un person, ac wedyn roedd 33. Fodd bynnag, heb ddadgyfuno gofal cleifion allanol (sy'n gyffredinol ddewisol ac yn gymharol isel) o ofal cleifion mewnol (a all fod yn ddewisol neu'n argyfwng, ac sy'n gost llawer uwch, yn amrywio yn ôl achos), nid yw'n bosibl cyfrifo a yw hyn yn cynrychioli defnydd mwy priodol o adnoddau'r GIG.

Ymweliadau ag Adrannau Achosion Brys

- 3.46 Mae ymweliadau ag adrannau brys yn amrywio o £86 ar gyfer presenoldeb yn unig heb ddim driniaeth, i £418 (The King's Fund, 2023). Cyn ymwneud â Tai yn Gyntaf, mynychodd y garfan hon o bobl 15 gwaith, ac ar ôl ymwneud â Tai yn Gyntaf, 3 gwaith. Mae hyn yn rhoi amrediad o effaith o amcangyfrif isel o £1,032 i £4,915 mewn arbedion uniongyrchol i'r GIG. Mae'r arbedion hyn yn annhebygol o fod yn

rhyddhau arian parod ond maent yn fwy effeithlon ac yn lleihau'r amseroedd aros a'r diffyg gwelyau sydd ar gael i bobl eraill.

Nosweithiau o gysgu allan

- 3.47 Dywed Crisis mai'r gost gyfartalog i gymdeithas y flwyddyn i rywun sy'n cysgu allan oedd £20,128 yn 2015 (Pleace, 2015). Gellid cyfartalu hyn i gost ddyddiol o £55.15 y pen, yn ymwneud yn bennaf â chyswllt â gwasanaethau, er ei bod yn amlwg nad yw'r costau'n cael eu cronni ar sail mor gyson mewn bywyd go iawn, weithiau ni fyddai dim costau fel y cyfryw.
- 3.48 Cyn yr ymyrraeth, roedd y garfan Tai yn Gyntaf a gaiff eu gwerthuso yma wedi cronni cyfanswm o 1,545 o nosweithiau yn cysgu ar y stryd, a chyfanswm ar ôl yr ymyrraeth o 3 noson. Byddai hyn yn cynrychioli arbediad dangosol posibl o £85,041.30 (1,545 noson *£55.15 – 3 noson* £55.15). Unwaith eto, efallai na fydd hyn yn rhyddhau arian parod; mae'n annhebygol y gallai'r swm hwn o arian gael ei ailddosbarthu i wasanaethau eraill. Mae risg hefyd o gyfrif dwbl, gan fod y ffigur hwn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth gofal iechyd (lle'r oedd unigolion yn cysgu mewn lleoliadau gofal iechyd). Fodd bynnag, mae'n arwydd o fwy o arbedion effeithlonrwydd a allai fod yn bosibl mewn nifer o wasanaethau, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau iechyd ac allgymorth.

Astudiaeth Achos 4: Casgliadau Cyffredinol

- 3.49 Mae'r sylw hwn ar gost-effeithiolrwydd mewn perthynas â Tai yn Gyntaf yn amlygu cymhlethdod taflwybrau unigol a'r heriau wrth lunio casgliadau cyffredinol.
- 3.50 Yr achosion lle caiff y mwyaf o gostau eu harbed yw lle bo unigolion a oedd gynt yn gwneud defnydd aml o'r gwasanaethau iechyd brys, cyfiawnder troseddol a digartrefedd, yn cael eu helpu gan Tai yn Gyntaf i sefydlogi o fewn tenantiaeth sefydlog, lleihau unrhyw droseddau a lle bo'n bosibl, yn cael mynediad at driniaeth iechyd brydlon, a honno lle bo'n bosibl yn driniaeth ataliol.
- 3.51 Fodd bynnag, mae yna lawer o amrywiadau o'r taflwybr hwn, fel mae'r amrywiol astudiaethau achos wedi ei ddangos. Mae llawer o unigolion eisoes yn sâl iawn erbyn iddynt gyrraedd Tai yn Gyntaf yng Nghymru, mae rhai yn eiddil (neu byddant yn heneiddio a gallant ddod yn eiddil tra'u bod yn cael eu cefnogi gan Tai yn

Gyntaf), ac mae rhai yn cael eu galluogi gan gymorth ac eiriolaeth Tai yn Gyntaf i gael mynediad at driniaeth fel radiotherapi, neu ymweliadau gofal rheolaidd na fyddent wedi gallu eu gwneud heb gefnogaeth a chartref sefydlog. Heb Tai yn Gyntaf, mae'n bosibl y byddai'r unigolion hyn wedi bod angen ymyraethau gofal llawer drutach. Mae'r un mor debygol y byddent wedi marw, er ei bod yn werth nodi mai un o brif achosion diweddu cymorth Tai yn Gyntaf yn y DU yw marwolaeth gynamserol (Blood, Birchall a Pleace, 2021). Er bod llawer o enghreifftiau o gwsmeriaid Tai yn Gyntaf gyda llai o arestiadau, mae'n annhebygol y bydd 'adferiad' ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth gydol oes, trawma a digartrefedd yn digwydd yn llinol ac, fel yr amlygwyd yn y dadansoddiad hwn, gall un unigolyn sydd â niferoedd cynyddol o arestiadau ystumio'r duedd gyffredinol.

- 3.52 Am y rhesymau hyn ac o ystyried cyfyngiadau'r data mae'r tîm ymchwil wedi gallu ei gasglu yn yr ymarfer hwn, y teimlad yw na ellir cyfiawnhau cyfuno'r arbedion costau hyn i gynhyrchu cyfanswm na chyfartaledd arbedion costau. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad wedi dangos y gwahanol gyd-destunau a'r mecanweithiau y gallai Tai yn Gyntaf gynhyrchu arbedion cost drwyddynt - i awdurdodau lleol ac i systemau iechyd a chyfiawnder troseddol. Hyd yn oed mewn achosion lle mae costau wedi cynyddu neu aros yr un fath, mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario yn fwy effeithiol a chyda gwell canlyniadau i unigolion, teuluoedd, cymunedau, a chyda llai o bwysau ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau ymateb i argyfwng.

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc

- 3.53 Fel yr eglurwyd ar ddechrau'r adran Gwerth am Arian hon yn yr adroddiad, ni fu'n bosibl archwilio'n fanwl yr arbedion cost posibl ar lefel achos y gellid eu priodoli i'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc heb asesiad hydredol a/neu ddatgelu hunaniaeth unigolion. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad un achos diddorol yn dangos cyfyngiadau'r gronfa wrth gyfeirio at derfynau oedran ac aneffeithlonrwydd posibl a grëwyd trwy bontio rhwng gwasanaethau.

Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 5: Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc (HF4Y) a chostau 'ymyl dibyn' oedran

- 3.54 Mae'r enghraifft hon o gost-ffeithiolrwydd a gyfrifwyd yn seiliedig ar unigolyn damcaniaethol ond mae'n adlewyrchu profiad uniongyrchol gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, sy'n gweithio gyda phobl 16-25 oed, yn cael ei ddarparu trwy 5 fflat hunangynhwysol a swyddfa, gyda rhai mannau cymunedol gydag un fflat 'symud ymlaen' ychwanegol ar gael hefyd, i gyd fewn yr un safle. Mae'r model hwn yn gweithredu ffurf wedi ei addasu o Tai yn Gyntaf; mae modelau Tai yn Gyntaf yn tueddu i fod yn benagored, tra bod Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc â therfyn amser (CACTI, 2014). Mae yna hefyd rai gwahaniaethau gyda'r model Tai yn Gyntaf gwreiddiol (Pleace, 2016) sydd â phwyslais ar dai gwasgaredig, tra bod y prosiect hwn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar grynhoi ar yr un safle (dull a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill).
- 3.55 Mae rhai pryderon wedi cael eu hadrodd gyda gallu'r gwasanaeth hwn, sy'n gweithredu ffurf hybrid o Tai yn Gyntaf, gan adlewyrchu arfer dulliau CTI (ymyriad cyfnod critigol – *critical time intervention*) sy'n debyg i Tai yn Gyntaf mewn sawl ffordd, ond sy'n gyfyngedig o ran amser, yn hytrach na bod yn benagored (CACTI, 2014). Mae rhai gwahaniaethau hefyd o gymharu â'r model Tai yn Gyntaf gwreiddiol (Pleace, 2016) sydd â phwyslais ar dai gwasgaredig, tra bod y prosiect hwn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar grynhoi ar yr un safle (dull a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill, ee y Ffindir).
- 3.56 Cyn dechrau gweithredu, rhagwelwyd bod y gwasanaeth Tai yn Gyntaf hwn ar gyfer pobl ifanc yn gallu, ar ôl cynnig cymorth mewn tai annibynnol, symud pobl ifanc ymlaen i gartref annibynnol, sefydlog. Canfu'r gwerthusiad fod 'symud ymlaen' o'r gwasanaeth hybrid hwn wedi bod yn anodd, oherwydd diffyg cyflenwad tai priodol. Un broblem oedd bod y gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc wedi profi tagfeydd, sef bod pobl ifanc yn cronni yn y gwasanaeth y dywedwyd ei fod yn gwneud llawer iawn o waith dros gyfnodau hir yn aml cyn i bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth allu symud ymlaen.

- 3.57 Er bod asesiad o gywirdeb y model y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad, dylid amlygu bod y ffactorau hyn - y cynnig cymorth ac iddo derfyn amser, a chyfyngiadau oed, ynghyd â thai sydd wedi eu crynhoi ar safle penodol a ddarperir fel pecyn gyda'r cymorth, a diffyg mynediad at lety sefydlog i symud ymlaen iddo yn y pen draw yn llawer agosach at fodel grisiau pontio tai â chymorth na Tai yn Gyntaf gwirioneddol.
- 3.58 Mater a nodwyd yw, lle nad yw symud ymlaen wedi digwydd a bod rhywun yn cyrraedd y terfyn oedran uchaf ar gyfer cymorth a ariennir gan y gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc hwn, y gallent wynebu digartrefedd sy'n digwydd dro ar ôl tro. Y posibilrwydd hwn, sydd unwaith eto'n tynnu ar brofiad bywyd pobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ond heb adrodd taflwybr gwirioneddol unigolyn go iawn, sy'n cael ei archwilio yma.
- 3.59 Gan dybio bod rhywun wedi bod yn defnyddio Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc ers 2 flynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw:
- Bod oriau cyswllt wedi lleihau wrth iddynt ddod yn fwy hyderus ac abl i ddygymod yn annibynnol, fel bod eu cost (o ran cyfanswm eu cyswllt â'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc) yn y mis cyntaf o ddefnyddio'r gwasanaeth, yn llawer uwch nag yr oedd ar ôl dwy flynedd. Roeddent wedi eu cartrefu'n sefydlog ac nid oeddent yn defnyddio unrhyw lety arall.
 - Bod anghenion triniaeth a chymorth yn cael eu diwallu drwy ddefnydd sefydlog o wasanaethau safonol GIG Cymru a gwasanaethau gwaith cymdeithasol/gofal awdurdodau lleol, yn ogystal â'r gefnogaeth barhaus gan eu gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc.
- 3.60 A chan dybio, wrth adael Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yn 25 oed:
- Nad yw'r person ifanc wedi cael ei gysylltu'n llwyddiannus â gwasanaeth arall Tai yn Gyntaf (mae gwasanaeth i oedolion sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol, ond nid ydynt wedi gallu cael mynediad ato oherwydd ei fod yn llawn).
 - Eu bod yn mynd i mewn i lety argyfwng/dros dro sy'n ddigon pell o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol/gwaith y maent wedi bod yn eu defnyddio i'w gwneud yn anodd iddynt gael mynediad parhaus atynt, e.e., mae cludiant yn rhy ddrud a/neu maent wedi symud i ardal weinyddol arall.
- 3.61 Yn y senario hwn, mae person ifanc sydd ag anghenion cymhleth gan gynnwys hanes o salwch meddwl sy'n gysylltiedig â thrawma a chyswllt â gwasanaethau amddiffyn plant, caethiwed sy'n bennaf yn sgil defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a

hanes o droseddu lefel isel a charcharu tymor byr, wedi'i sefydlogi i raddau helaeth neu'n gyfan gwbl trwy ddwy flynedd o gyswllt â Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc. Mae wedi cael ei gartrefu'n sefydlog; mae'n ymwneud â gwasanaethau triniaeth a chymorth ac mae ei ymddygiad troseddol wedi peidio.

3.62 Wrth adael Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, mae cyfuniad o fyw mewn llety argyfwng o ansawdd isel, ond drud, sy'n wynebu heriau o ran diogelu a datgysylltu oddi wrth weithiwr cymorth yn Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, ynghyd â seibiannau mewn cysylltiadau â gwaith cymdeithasol a gwasanaethau GIG Cymru wedi achosi dirywiad cyflym. Mae problemau caethiwed yn ailymddangos, yn ogystal â salwch meddwl ac ymddygiad troseddol yn ailddechrau, gyda'r canlyniad terfynol yn golygu cael ei dynnu allan o lety dros dro a chysgu allan. Pe digwyddai'r senario hwn, gallai costau newid yn y mathau o ffyrdd a ddangosir gan y senario damcaniaethol a grynhoir yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 5 – Senario 'Ymyl Dibyn' Oedran Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc

Amcangyfrif cost unigolyn mewn gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc			
Disgrifiad o'r costau i'r Wladwriaeth ar sail un mis o ddefnyddio Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc	Cost i'r Wladwriaeth ar sail un mis (£)	Disgrifiad o'r costau i'r Wladwriaeth ar sail dwy flynedd o ddefnyddio Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc	Cost i'r Wladwriaeth ar sail dwy flynedd (£)
Cyswllt Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc am 20 awr	£399	Cyswllt Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc am 8 awr ¹	£160
3 ymweliad meddyg teulu	£123	Un ymweliad meddyg teulu ²	£41
8 awr o gyswllt gan weithiwr cymdeithasol	£400	2 awr o gyswllt gan weithiwr cymdeithasol ³	£100
Rhent	£800	Rhent ⁴	£800

<u>Costau misol bras</u>	<u>£1,722</u>	<u>Costau misol bras</u>	<u>£1,101</u>

Amcangyfrif cost unigolyn sydd wedi gadael gwasanaeth Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc			
Disgrifiad o'r costau i'r Wladwriaeth un mis ar ôl gadael Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc	Cost i'r Wladwriaeth ar ôl mis (£)	Disgrifiad o'r costau i'r Wladwriaeth un flwyddyn ar ôl gadael Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc	Cost i'r Wladwriaeth ar ôl dwy flynedd (£)
Llety dros dro	£1,200	Llety dros dro ⁴	£0
Dim defnydd o wasanaethau iechyd	£0	3 ymweliad ag Adran Damweiniau ac Achosion Brys (gydag ymchwiliad) ⁵	£1,254
Dim arhosiad mewn ysbyty	£0	Mynediad am 3 noson ⁶	£2,244
Dim cyswllt â gwasanaethau caethiwed	£0	Cyswllt â gwasanaethau caethiwed (3 awr) ⁷	£240
Dim cyswllt â gweithiwr cymdeithasol	£0	Cyswllt 8 awr gyda gweithiwr cymdeithasol ⁸	£600
<u>Cost misol, yn fras</u>	<u>£1,200</u>	<u>Cost misol, yn fras</u>	<u>£4,338</u>
<p>Gwybodaeth am ffynonellau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yn seiliedig ar yr amrediad presennol o rolau gweithiwr Tai yn Gyntaf a hysbysebwr yng Nghymru, ynghyd â chyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 13.8% a thybio £5 mewn costau swyddfa gefn. 2. Ffynhonnell: Jones <i>et al.</i> (2022). 3. Fel 2. 4. Amcangyfrifol 5. Ffynhonnell: The King's Fund (2023) 6. Ffynhonnell: Guest, JF. <i>et al.</i> (2020) (Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) 7. Fel 2. 8. Fel 2. 			

3.63 Yn yr enghraifft hon, sydd fel y nodwyd yn seiliedig ar senarios achosion go iawn a'r problemau sy'n wynebu gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, mae ymadawiad heb ei gynllunio'n effeithiol o Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yn peri cynnydd mewn cost i'r Wladwriaeth. Mae hyn yn codi oherwydd bod costau'r cymorth a gynigir gan Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc wedi gostwng i lefelau isel ar

gyfer y person ifanc hwn ar ôl 2 flynedd o ddefnyddio'r gwasanaeth o'i gymharu â lefel y gefnogaeth a'r cyswllt gwasanaeth y byddai wedi'i gael yn ystod eu mis cyntaf o ddefnyddio gwasanaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc (Pleace a Bretherton, 2019). Yn y senario hwn, mae datgysylltu yn digwydd oddi wrth batrwm sefydlog o wasanaethau prif ffrwd y GIG a gwaith cymdeithasol, sydd wedi'i drefnu trwy'r cymorth cysylltiedig â thai a gynigir gan Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc. I ddechrau, mae'r costau'n debyg, oherwydd mae effaith gwaddol o'r cyswllt Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, ond mae iechyd meddwl y person ifanc yn dirywio ac mae problemau gyda chaethiwed yn ailymddangos ar ôl blwyddyn. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o wasanaethau brys. Gall costau llety dros dro ostwng i ddim yn ystod unrhyw gyfnodau pan fo'r person ifanc yn cysgu allan neu'n gwneud ei drefniadau ei hun (e.e. o sofffa i sofffa, meddiannu anghyfreithlon, ac ati); Fodd bynnag, lle mae pobl yn cylchredeg i mewn ac allan o lety dros dro a gwasanaethau eraill fel hyn, amcangyfrifwyd bod cyfanswm y gost flynyddol i wasanaethau cyhoeddus yn £20,128 ar brisiau 2015 (Pleace, 2015), yn ogystal â'r canlyniadau iechyd gwael a mwy o risg o ddod i gysylltiad â'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol, a drafodwyd uchod.

- 3.64 Wrth gwrs, gall costau newid mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, gallai'r person ifanc symud at wasanaethau digartrefedd oedolion mewn un o ddwy ffordd, un senario yw trosglwyddiad esmwyth i Tai yn Gyntaf ar gyfer oedolion, lle gallai costau barhau yn debyg i'r hyn oeddent o'r blaen (ac mae'n debyg y byddent yn gostwng dros amser). Fel arall, efallai y byddant yn cael eu cyfeirio at wasanaethau tai â chymorth (hostel yn benodol) a allai fod â chostau gweithredu rhwng £400 a £800 yr wythnos, gan ddibynnu ar natur a dwyster y cymorth sydd ar gael a pha fath o lety sy'n cael ei ddarparu.
- 3.65 Er enghraifft, pe bai'r person ifanc a oedd yn gadael Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc mewn tai â chymorth ar £400 yr wythnos, ond bod hynny'n sicrhau bod ei anghenion yn dal i gael eu diwallu a chymysgedd da o gymorth yn cael ei gynnig, byddai'r costau oddeutu £1,200. Fodd bynnag, byddai ei sefyllfa yn un o ddigartrefedd (a ddiffinnir yn gyfreithiol), nid yn un o gael ei gartrefu'n sefydlog mewn cartref annibynnol, rhywbeth roedd Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yn ei gynnig am lefel debyg o wariant. Wrth gwrs, pe na bai'r tai â chymorth yn gallu

cynnig y cyfuniad cywir o gymorth, gallai costau eraill ddechrau ymddangos. Gallai senario arall fod eu hiechyd meddwl, eu caethiwed a'u digartrefedd yn cyfuno i gynyddu'r risg o droseddu, gan arwain at garchar, a fyddai'n costio tua £3,889 y mis, gan ddibynnu ar natur y ddedfryd a'r math o garchar (Clark, 2023).

- 3.66 Un pwynt allweddol yma yw, os nad oes parhad o gefnogaeth Tai yn Gyntaf, mae'r risgiau yn ddeublyg. Yn gyntaf, efallai na fydd anghenion cymorth a thriniaeth, yn ogystal â'r anghenion cymorth ymarferol ac emosiynol ehangach yn cael eu diwallu yn yr un ffordd, a gallai'r anghenion triniaeth a chymorth a arferai gael eu rheoli'n effeithiol ailymddangos fel anghenion heb eu diwallu, gan gynyddu'r risg o ddigartrefedd rheolaidd neu barhaus. Yn ail, os bydd gwasanaeth tai â chymorth yn camu i mewn ac yn llenwi'r bwlch, efallai na fydd y costau o reidrwydd yn fwy (yn enwedig os yw'n effeithiol). Eto, mae'r buddsoddiad yn Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc wedi cael ei danseilio'n rhannol o leiaf ac mae'r person wedi dychwelyd i ddigartrefedd o hyd yn enwedig os yw'r tai â chymorth hynny'n wynebu rhwystrau lluosog i sicrhau tai a chymorth ar gyfer symud ymlaen, ac mae'r person ifanc yn mynd yn 'gaeth' yn y gwasanaeth, sefyllfa nad yw'n anghyffredin.

Cyllid Cam 2

- 3.67 Disgrifiodd un awdurdod lleol sut roedd hyblygrwydd cymharol y cyllid refeniw a chyfalaf a ddarparwyd drwy Gam 2 wedi eu galluogi i gyflymu'r broses o bontio i system ailgartrefu gyflym. Er enghraifft, roeddent wedi gallu trosi hostel mawr i deuluoedd yn fflatiau hunangynhwysol i bobl sengl, sydd bellach yn darparu model llety â chymorth heb gyfyngiadau amser i'r rhai sydd ag anghenion parhaus na ellir eu diwallu o fewn modelau pontio arosiadau byr. Yn y cyfamser, roeddent yn gallu creu unedau dros dro modiwlaid ychwanegol, a datblygu 'cynlluniau a reolir' parhaol ar gyfer gwahanol garfannau: aelwydydd sengl, teuluoedd a phobl dros 55 oed sydd ag anghenion cymorth uwch ac is. Roedd cyllid Cam 2 yn caniatáu iddynt brofi ac ehangu modelau arloesol – megis y tîm amlddisgyblaethol sy'n gweithio ar draws y llwybrau hyn – a thalu costau pontio, megis gweithredu dau fodel ar unwaith ac yn sgil gwagleoedd, wrth i bobl gael eu hadleoli, a gwaith adnewyddu gael ei wneud. Yma rydym yn disgrifio'n fanylach y model 'cynllun a reolir' a ddatblygwyd gan yr awdurdod hwn fel rhan o'u gwaith i drawsnewid yn system

ailgartrefu gyflym. Er nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan arian Cam 2, mae'n symudiad radical tuag at ailgartrefu'n gyflym, ac sy'n cynhyrchu arbedion cost sylweddol, er y gallai fod yn rhy gynnar i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau i unigolion yn hydredol.

Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 6: Cynlluniau a reolir

- 3.68 Datblygwyd y model 'cynllun a reolir' fel rhan o'r trawsnewidiad ehangach o systemau a ddisgrifir uchod. Yn benodol, fe'i cynlluniwyd i ymateb i nifer uchel o bobl sy'n cysgu allan yn yr ardal a thystiolaeth o bobl ag anghenion cymhleth a ddaliwyd mewn 'drws cylchdro' o ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd. Roedd adolygiad a gyflawnwyd gan yr awdurdod lleol wedi nodi bod 387 o bobl wedi bod drwy'r system ddigartrefedd ddeg gwaith neu fwy.
- 3.69 Mae un o'r cynlluniau a reolir yng Nghymru yn cynnig 62 o fflatiau hunangynhwysol (y rhan fwyaf yn fflatiau 1 ystafell wely, er bod rhai fflatiau gydag ail ystafell wely fach, a oedd wedi'u cynnwys i fodloni gofynion cynllunio, ond sydd wedi bod yn ddefnyddiol lle mae gan unigolion anghenion gofal iechyd cymhleth neu'n gweithio tuag at ailuno gyda'u plant). Cynllun newydd ei adeiladu oedd hwn, a ddatblygwyd gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol. Darperir nwyddau gwyn a phecyn dodrefn i'r fflatiau – gan ddibynnu ar bolisi'r landlord cymdeithasol ac amgylchiadau a dewisiadau'r tenant, caiff hyn weithiau ei roi yn rhodd, weithiau tâl yn cael ei ailgodi amdano ac (yn achos nwyddau gwyn) yn cael eu cynnal gan y landlord. Mae tenantiaid ar gontractau meddiannaeth safonol (tenantiaeth), fel y byddent mewn unrhyw dai cymdeithasol. Felly, gall y model gynnig cartref am oes, er mai'r bwriad yw bod unigolion neu gyplau sydd â phlant neu sy'n cael eu hail-uno â phlant yn cael cymorth i wneud cais am dai mwy addas i deuluoedd.
- 3.70 Mae gweithiwr cymorth tai ar y safle yn y cynllun rhwng 9am a 5pm, a'r tu allan i'r oriau hyn, darperir gwasanaeth gofalwr. Gall tenantiaid unigol gael mynediad at gymorth ychwanegol yn ôl yr angen gan y cynnig gwasanaeth tai, gofal a chymorth ehangach. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys cynnig o gefnogaeth fel y bo'r angen, cymorth gan y tîm amlddisgyblaethol neu gymorth Tai yn Gyntaf, yn ogystal â chefnogaeth barhaus gan wasanaethau statudol a gwirfoddol y sector, fel

gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol neu ofal cymdeithasol i oedolion.

Eglurodd y comisiynydd y gallant addasu faint o gymorth sy'n mynd i mewn i'r cynllun cyfan: er enghraifft, wrth i bobl setlo i'w tenantiaethau, maent wedi gallu lleihau'r cynnig cymorth tai sy'n seiliedig ar y cynllun i tua thri chwarter yr hyn a gomisiynwyd i ddechrau. Ym mis Chwefror 2024, roedd un symudiad wedi'i reoli (y tenant yn gofyn amdano) yn ôl i dai â chymorth, ond ni throwyd neb allan o'r cynllun.

- 3.71 Caiff rhenti eu gosod o gwmpas lefel Lwfans Tai Lleol, felly maent yn fforddiadwy i bobl. Mae cost y gwasanaeth gofalwr, a rheoli tai, law yn llaw â chostau cynnal lifftiau, mynedfeydd, coridorau a thiroedd wedi'u cynnwys mewn tâl gwasanaeth, sy'n gymwys ar gyfer Budd-dal Tai, lle gall yr unigolyn hawlio hyn. Mae tenantiaid yn gyfrifol am eu cyfleustodau eu hunain, Treth y Cyngor, etc fel y byddent mewn tai prif ffrwd.
- 3.72 Mae'r enghraifft a ddangosir yn Nhablau 7 ac 8 ar yr effeithiolrwydd cost cymharol yn defnyddio model bywyd go iawn o gostau darparu gwasanaethau, a'r taflwybr enghreifftiol sydd wedi'u cynllunio i ddangos pa mor gost-effeithiol y gall dull fel cynlluniau a reolir fod, se feu bod yn efelychu costau realistig a thaflwybr realistig yn seiliedig ar brofiad. Astudiaethau achos dangosol yw Tablau 7 ac 8 yn hytrach nag enghraifft benodol, er bod costau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol oni nodir yn wahanol.
- 3.73 Yma, mae rhywun sy'n gadael gofal ac sydd â hanes o gyswllt â gwasanaethau iechyd meddwl a chyfiawnder troseddol mewn un o ddau senario. Yn y cyntaf (Tabl 6), mae'n treulio blwyddyn i mewn ac allan o wahanol wasanaethau a sefydliadau, gan gynnwys dedfryd weddol fyr o garchar ac mae ganddo gyswllt cyfyngedig â gwasanaethau iechyd meddwl. Yn yr ail (Tabl 7), mae'r unigolyn wedi'i gartrefu'n sefydlog mewn cynllun a reolir gyda chymorth unigol yn ôl y galw yn cael ei gynnig ar ben y cynnig sy'n seiliedig ar y cynllun ac mae ganddo gyswllt gwell a mwy parhaus â gwasanaethau iechyd meddwl, a gyrchir mae'n debyg trwy'r Tîm Amlddisgyblaethol arbenigol.
- 3.74 Mae'r cymhlethdodau a all godi ynghylch penderfynu cost-effeithiolrwydd yn cael eu darlunio gan y senarios a ddangosir yn Nhabl 6 a 7. Mae'r cynllun a reolir a'r pecyn o wasanaethau GIG Cymru a gwasanaethau (gofal) cymdeithasol sy'n cael eu

treulio (Tabl 7) yn llawer mwy cost-effeithiol na thaith anhrefnus drwy'r system ddigartrefedd (Tabl 6), llety dros dro, arosiadau mewn ffurfiau cymysg o dai â chymorth (hosteli), carcharu a byw ar y stryd. Gellir crynhoi'r gwahaniaethau o ran sut mae'r arian yn cael ei wario fel a ganlyn:

- Mae'r gwasanaethau brys a'r system cyfiawnder troseddol yn gostau a ysgwyddir na fydd efallai'n codi i'r un graddau os yw'r person enghreifftiol yn byw yn y gwasanaeth cynllun a reolir.
- Mae costau i wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl yn dal i godi, ond mewn amgylchedd sefydlog, defnyddir meddygfa meddyg teulu yn hytrach nag adran achosion brys ac mae cefnogaeth gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) yn ddrutach oherwydd bod cyswllt yn fwy sefydlog.
- Mae'r gost o ddatrys digartrefedd ac atal rhagor o gysgu allan yn sylweddol ratach na chaniatáu i ddigartrefedd barhau. Gan fod rhent a thâl gwasanaeth yn y cynllun a reolir wedi'u gosod o fewn lefelau Lwfans Tai Lleol, gellir ariannu hyn yn llawn trwy fudd-daliadau a dylai barhau i fod yn fforddiadwy os yw'r person yn gyflogedig neu'n dod yn gyflogedig. Mae hyn yn wahanol i fodolau tai â chymorth lle mae rhenti a thaliadau gwasanaeth fel arfer yn llawer uwch na chyfraddau Lwfans Tai Lleol, gan ei gwneud hi'n anodd iawn i bobl weithio a fforddio talu eu rhent eu hunain, ac sy'n golygu y byddai angen i unrhyw un na chaiff ei asesu mwyach fel rhywun sydd angen cymorth symud ymlaen.

Tabl 6 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 6 cyn cychwyn mewn Cynlluniau a Reolir

<i>Cyn cychwyn mewn cynllun a reolir gyda Thîm Amlddisgyblaethol</i>	
Disgrifiad o'r amcangyfrif costau i'r Wladwriaeth cyn cychwyn yn y cynllun a reolir	Amcangyfrif o'r gost i'r Wladwriaeth cyn cychwyn (£)
2 asesiad Opsiynau Tai ¹	£2,180
6 wythnos mewn llety dros dro ²	£2,400
15 wythnos mewn hostel canolig (gan gynnwys rhent, tâl gwasanaeth a chymorth) ³	£3,570

10 wythnos mewn tai â chymorth dwysedd uwch (gan gynnwys rhent, tâl gwasanaeth a chymorth) ⁴	£4,270
5 ymweliad ag uned achosion brys (gydag ymchwiliad) ⁵	£2,090
5 apwyntiad iechyd a gollwyd (yn seiliedig ar amcangyfrifon cost a rennir ar gyfer y gwerthusiad ar gyfer cost gyfartalog mynd i uned achosion brys)	£1,309.75
12 cyswllt gyda thîm iechyd meddwl cymunedol (CMHT) ⁶	£2,760
Arestio a chadw yn y ddalfa ⁷	£1,090
Dedfryd o 12 wythnos o garchar ⁸	£10,668
3 wythnos yn byw allan	£0
6 wythnos o ddigartrefedd cudd	£0
<u>Cyfanswm yr amcangyfrif (gan gynnwys rhent a thâl gwasanaeth)</u>	<u>£30,337.75</u>

Tabl 7 Astudiaeth Achos Gwerth am Arian 6 mewn Cynlluniau a Reolir

<i>Mewn cynllun a reolir gyda Thîm Amlddisgyblaethol</i>	
Disgrifiad o'r amcangyfrif costau i'r Wladwriaeth am flwyddyn yn y cynllun a reolir	Amcangyfrif o'r gost i'r Wladwriaeth am flwyddyn (£)
Rhent a thâl gwasanaeth (tua £150 yr wythnos) – Noder bod hyn yn gymwys am Fudd-dal Tai tra bod dyn yn derbyn cymorth ond yn unol â lefelau Lwfans Tai Lleol, fel ei bod yn	£7,800

fforddiadwy yn fwy hirdymor pe bai'n cael gwaith neu'n symud i elfen tai Credyd Cynhwysol.	
Cynnig Cymorth Tai (lefel y cynllun, yn cynnwys 1 gweithiwr yn ystod y dydd sy'n cefnogi 62 o denantiaid)	£1,354
Cynnig Cymorth Tai (ar lefel unigolyn, - rydym wedi tybio y byddai angen cynnig cymorth fel bo'r angen ar y dyn (llwyth achos 1: 15) drwy gydol y flwyddyn gyntaf ar gost o £55.50 yr wythnos.	£2,886
7 apwyntiad meddyg teulu ¹⁰	£287
40 cysylltiadau â CMHT (Noder: gellir darparu hyn i ddechrau trwy'r tîm amlddisgyblaethol) ¹¹	£9,200
<u>Cyfanswm yr amcangyfrif os yw rhent a thâl gwasanaeth yn gynnwysedig</u>	<u>£21,527</u>
Cyfanswm yr amcangyfrif os nad yw rhent a thâl gwasanaeth wedi'i gynnwys	£13,727
<p>Ffynonellau gwybodaeth ar gyfer tablau 6 a 7:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yn seiliedig ar Pleace, 2015; Pleace a Culhane, 2016 2. Amcangyfrifiwyd 3. Yn seiliedig ar Pleace a Bretherton, 2019 4. Fel yr uchod 5. Ffynhonnell: The King's Fund, 2023 6. Fel 1. 7. Fel 1. 8. Ffynhonnell: Clark, 2023 9. Yn seiliedig ar gostau nodweddiadol ar gyfer tai â chymorth dwys (Pleace and Bretherton, 2019) 10. Ffynhonnell: Jones <i>et al.</i>, 2022. 11. Fel 1. 	

3.75 Mae un pwynt terfynol yma'n ymwneud â chostau tymor canolig a hirdymor digartrefedd rheolaidd a pharhaus ymhlith pobl sydd ag anghenion triniaeth a chymorth lluosog, uchel a chymhleth. Mae costau, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, yn debygol o gynyddu dros amser wrth i ddigartrefedd barhau (Pleace *et al.*, 2013). Yn ogystal, er bod pobl sy'n profi'r mathau hyn o ddigartrefedd, gan gynnwys cyfnodau parhaus o gysgu allan, yn llawer mwy tebygol o farw cyn iddynt gyrraedd 50 oed na'r boblogaeth gyffredinol (Heerde *et al.*, 2023), gall costau ariannol yr hyn a allai fod yn 2 neu 3 degawd o ddigartrefedd ddal i fod yn uchel iawn. Ar y llaw arall, fel y dangosir gan rywfaint o ddata ar ddefnyddio modelau crynhoi ar un safle Tai yn Gyntaf yn rhyngwladol, mae tai sefydlog a chymorth yn debygol o gael dwy effaith dros amser. Gall liniaru os nad gwrthdroi effeithiau salwch difrifol a gall fod rhywfaint o ostyngiad yn y defnydd o gymorth dros amser. O ganlyniad, gall costau ostwng i ryw raddau wrth i sefydlogrwydd cartref a gwell mynediad at driniaeth a chymorth, law yn llaw â chanlyniadau cadarnhaol eraill ymddangos dros amser. Unwaith eto, mae'r graddau'r cost-effeithiolrwydd yma yn dibynnu'n helaeth ar ba mor sâl yw rhywun ar yr adeg y mae'n dechrau defnyddio gwasanaethau fel cynlluniau a reolir. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi bod yn broblem i'r model Tai yn Gyntaf yn fwy cyffredinol - os yw'r atgyfeiriad yn rhy hwyr oherwydd bod y trothwyau cymhwysio wedi'u gosod yn rhy uchel, efallai y bydd Tai yn Gyntaf yn cael eu hunain yn aml iawn yn rheoli achosion yr hyn sydd yn ei hanfod yn ofal lliniarol, yn hytrach na rhoi diwedd parhaol ar ddigartrefedd (Blood, Birchall a Pleace, 2021).

4. Casgliadau

- 4.1 Mae'r gwerthusiad wedi canfod llawer o enghreifftiau lle mae sefydlogrwydd llety, ynghyd â'r cymorth cywir (sef dull ailgartrefu) wedi galluogi unigolion i leihau eu defnydd diangen o wasanaethau brys, a chael mynediad at wasanaethau iechyd sylfaenol ac iechyd meddwl cymunedol mewn ffordd fwy amserol ac ataliol. Yn aml, mae unigolion sydd ag anghenion iechyd lluosog a hanesion trawma, gyda'r ymyraethau hyn, wedi gallu lleihau eu defnydd o sylweddau a lleihau troseddu, ac ailadeiladu cydberthynas amddiffynnol gyda theulu a ffrindiau. Mae'n amlwg o enghreifftiau Tai yn Gyntaf a Cam 2, ei bod yn fwy cost effeithiol ac yn aml yn llawer rhatach i'r wladwriaeth helpu rhywun i mewn i lety sefydlog, o ansawdd uchel, na'u cadw i gylchredeg o un gwasanaeth digartrefedd i'r llall. Gall fod modd osgoi costau sylweddol i wasanaethau iechyd, cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant trwy ddull ail-gartrefu sy'n cyfuno cartrefi sefydlog ac addas â'r cymorth cywir.
- 4.2 Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg o'r astudiaethau achos a'r enghreifftiau a gyflwynir yma, lle mae 'dibyn serth' mewn darpariaeth cymorth o ran gwasanaethau neu gyllid yn digwydd (fel yn yr enghraifft Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yn astudiaeth achos 5, lle daeth person yn anghymwys am y cynnig cymorth a ariennir gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc oherwydd oedran) mewn perygl o ansefydlogi unigolion a'u dychwelyd at ddigartrefedd craidd ar y gorau, os nad cysgu allan, yn enwedig lle maent hefyd yn wynebu colli llety clwm.
- 4.3 Mae goblygiadau yma ar gyfer penderfyniadau am raglenni ariannu yn y dyfodol, gan gynnwys hyd cylchoedd cyllido, yr angen am hyblygrwydd o ran gweithredu terfynau uchafswm oed, a phwysigrwydd sicrhau bod prosiectau a ariennir yn cael eu hintegreiddio'n well â systemau a llwybrau lleol – argymhelliad allweddol y prif adroddiad Gwerthuso Ymyraethau Digartrefedd sy'n cyd-fynd â'r darn Gwerth am Arian hwn.
- 4.4 Mae'r enghraifft Cam 2 yn dangos sut y gall awdurdod lleol sydd eisoes â chynllun strategol da ar gyfer trawsnewid gwasanaethau digartrefedd elwa o gyllid hyblyg ychwanegol i gefnogi costau cyflawni'r pontio hwn.

Cyfeiriadau

Aubry, T. (2020) 'Analysis of housing first as a practical and policy relevant intervention: the current state of knowledge and future directions for research'. *European Journal of Homelessness* 14(1), tt.13-26.

Aubry, T., Roebuck, M., Loubiere, S., Tinland, A., Nelson, G. a Latimer, E. (2021) 'A Tale of Two Countries: A Comparison of Multi-Site Randomised Controlled Trials of Pathways Housing First Conducted in Canada and France'. *European Journal of Homelessness* 15(3), pp. 25-44.

Bending, M.W., Trueman, p., Lowson, K.V., Pilgrim, H., Tappenden, P., Chilcott, J., a Tappenden, J. (2010) 'Estimating the direct cost of bowel cancer services provided by the National Health Service in England'. *International Journal of Technology Assessment in Health Care*. Cyfrol 26, Rhifyn 4, Hydref 2010, tt. 362 – 369.

Benjaminsen, L., Dhalmann, H., Dyb, E., Knutagård, M. a Lindén, J. (2020) 'Measurement of homelessness in the Nordic countries'. *European Journal of Homelessness* 14(3), tt. 149-170.

Blood, I., Birchall, A. and Pleace, N. (2021) [Reducing, changing or ending Housing First support](#). Llundain: Homeless Link. Ar gael ar: (Gwelwyd: 13/02/2024).

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr GIG Cymru (2020) [Swm cyfartalog mae'r Bwrdd Iechyd yn ei briodoli fesul noson fesul gwely](#): 559/19/FOI. (Gwelwyd: 08/02/2024).

[Centre for the Advancement of Critical Time Intervention](#) (2014) *CTI Model*. (Gwelwyd: 03/02/2024).

Clark. D., (2023) [Expenditure per prison place in England and Wales 2015-2022](#). (Gwelwyd: 08/02/2023).

Culhane, D.P. (2008) 'The Cost of homelessness: A perspective from the United States'. *European Journal of Homelessness* 2(1), tt. 97-114.

Cyngor Abertawe (2023) *Taliadau Gofal Cartref*. Ar gael ar: <https://www.swansea.gov.uk/chargesforcareathome?lang=en> (Accessed: 15/02/2024).

Cyngor Sir Gaerfyrddin (2023) *Taliadau am Ofal Cartref*. Ar gael ar: <https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/social-care-health/charges-for-care-at-home/> (Gwelwyd: 15/02/2024).

GIG Lloegr (2023) *National Cost Collection National schedule of NHS costs - Year 2021/22*. Ar gael ar: <https://www.england.nhs.uk/costing-in-the-nhs/national-cost-collection/> (Gwelwyd: 08/02/2024).

GMCA (2022) [Unit Cost Database \(v.2.3.1\)](#) (Gwelwyd: 08/02/2024).

Guest J.F., Keating T., Gould D., a Wigglesworth N. (2020) 'Modelling the annual NHS costs and outcomes attributable to healthcare-associated infections in England'. *BMJ Open*. 2020 Ionawr 22;10(1):e033367. doi: 10.1136/bmjopen-2019-033367. PMID: 31974088; PMCID: PMC7045184.

Han L., Clegg A., Doran T. a Fraser F., (2019) 'The impact of frailty on healthcare resource use: a longitudinal analysis using the Clinical Practice Research Datalink in England'. *Age and Ageing*, Cyfrol 48, Rhifyn 5, Medi 2019, Tudalennau 665–671.

Heerde J., Borschmann R., Young J., Kinner S.A., Sawyer S.M. a Patton G.C. (2023), ['Mortality among people who have experienced homelessness: protocol for a systematic review and meta-analysis'](#), *BMJ Open*, cyf. 13, rhif. 2, e067182, tt. e067182.

Hope, V., Kimber, J., Vickerman, P., Hickman, M., Ncube, F. (2008) ['Frequency, factors and costs associated with injection site infections: Findings from a national multi-site survey of injecting drug users in England'](#). *BMC Infectious Diseases* 8, 120 (2008). (Gwelwyd: 08/02/2024).

Jones, L., Bigland, C., ad Quigg, Z. (2020) [Costs of Violence to the Healthcare system in Wales](#). Lerpwl: Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Prifysgol John Moores Lerpwl. (Gwelwyd: 13/02/2024).

Jones, K. Weatherly H., Birch, S., Castelli, A., Chalkley, M., Dargan, A., Forder, J., Gao, M., Hinde, S., Markham, S. Ogunleye, D. Premji, S., and Roland, D. (2022) [Unit Cost of Health and Social Care 2022 Manual](#). Caint: Prifysgol Caint. (Gwelwyd 08/02/2024).

Lachaud, J., Mejia-Lancheros, C., Durbin, A., Nisenbaum, R., Wang, R., O'Campo, P., Stergiopoulos, V. and Hwang, S.W. (2021) 'The Effect of a Housing First Intervention on Acute Health Care Utilization among Homeless Adults with Mental Illness: Long-term Outcomes of the At Home/Chez-Soi Randomized Pragmatic Trial'. *Journal of Urban Health* 98(4), tt. 505–515.

Llywodraeth Cymru (2019) [Deall Achosion o Droï Allan o Dai Cymdeithasol yng Nghymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (Gwelwyd 08/02/2024).

Marie Curie Cancer Care (2012) [Understanding the cost of end of life care in different settings](#). (Gwelwyd: 08/02/2024).

Munson, S. (2024) [Care Home Funding in Wales 2024](#). (Gwelwyd: 15/02/2024).

Newyddion BBC (2017) [North Wales Police close cells costing more than hotel](#). (Gwelwyd: 08/02/2024).

NICE (2018) [Chronic obstructive disease in over 16s: diagnosis and management: Economic model report](#). NICE guideline NG115. Llundain: NICE. (Gwelwyd: 08/02/2024).

Nikolova S., Heaven A., Hulme C., West R., Pendleton N., Humphrey S., Cundill B. a Clegg A. (2022) 'Social care costs for community-dwelling older people living with frailty'. *Health Soc Care Community*. 2022 Mai; 30(3):e804-e811. doi: 10.1111/hsc.13450. Epub 2021 May 26. PMID: 34080751.

Padgett, D.K., Henwood, B.F. a Tsemberis, S. (2016) *Housing First: Ending Homelessness, Transforming Systems and Changing Lives*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Pleace, N. a Bretherton, J. (2019) *The cost effectiveness of Housing First in England* Llundain: Homeless Link.

Pleace, N. (2015) *At What Cost? An estimation of the financial costs of single homelessness in the UK*. Llundain: Crisis.

Pleace, N., Baptista, I., Benjaminsen, L. and Busch-Geertsema, V. (2013) *The Costs of Homelessness in Europe: An Assessment of the Current Evidence Base*. Brwsel: FEANTSA.

Pleace, N. a Culhane, D.P. (2016) *Better than cure? Testing the case for enhancing prevention of single homelessness in England*. Llundain: Crisis.

Pleace, N. (2016) [Housing First Guide Europe Brwsel: Tai yn Gyntaf Ewrop](#). (Gwelwyd: 08/02/2024).

Pleace, N. (1995) *Housing Vulnerable Single Homeless People*. Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Pleace, N. (2018) *Using Housing First in Integrated Homelessness Strategies*. Llundain: St Mungo's.

Rogans-Watson, R., Shulman, C., Lewer, D., Armstrong, M. a Hudson, B. (2020), 'Premature frailty, geriatric conditions and multimorbidity among people experiencing homelessness: a cross-sectional observational study in a London hostel'. *Housing, Care and Support*, Cyf. 23 No. 3/4, tt. 77-91.

Sefydliad Iechyd y Byd (2023) WHO launches commission to foster social connection. Ar gael ar: <https://www.who.int/news/item/15-11-2023-who-launches-commission-to-foster-social-connection> (Gwelwyd: 08/02/2024)

StatsCymru (2023) [*Rhenti wythnosol cyfartalog ar gyfer y stoc tai cymdeithasol i'w rhentu yn ôl y math o annedd, nifer yr ystafelloedd gwely a'r math o ddarparwr*](#) (Gwelwyd: 08/02/2024).

The King's Fund (2023) [*Key facts and figures about the NHS*](#). (Gwelwyd: 08/02/2024).

The Strategy Unit (2023) [*Frailty and Dementia Patient Cohort: NHS St Helens CCG*](#). [Cyflwyniad PowerPoint] (Gwelwyd: 08/02/2024).

Thomas, I. and Mackie, P. (2021) [*The Power of case level data and data linkage in homelessness research*](#). (Gwelwyd: 08/02/2024).

Waugh, A., Clarke, A., Knowles, J. a Rowley, D. (2018) [*Health and Homelessness in Scotland*](#). Caeredin: Llywodraeth yr Alban. (Gwelwyd: 08/02/2024).

Y Groes Goch Brydeinig (2021) [*Nowhere Else to Turn: Exploring High Frequency Use of Accident and Emergency Services*](#). (Gwelwyd: 08/02/2024).